# Cyfarwyddyd ar gyfer ceisiadau pasbort papur

Swyddfa Basport EM

## Gwybodaeth bwysig

Rydym am eich helpu i gael eich cais yn iawn y tro cyntaf ac osgoi oedi cyn i chi gael eich pasbort. Dyma'r 3 chamgymeriad mwyaf cyffredin, darllenwch y cyfarwyddyd yn ofalus cyn llenwi eich ffurflen.

## 2 ffotograff diweddar

Gweler tudalennau 19-20

## Adlofnodwr Addas

Gweler tudalennau 12-13

## Dogfennau i gefnogi cais

Gweler tudalennau 14-18

Ysgrifennwch eich cyfeirnod isod. Gellir gweld hwn ar frig eich ffurflen gais dan y cod bar.

______________________________

Os ydych yn defnyddio Gwasanaeth Gwirio a Danfon y Swyddfa Bost, bydd eich cyfeirnod ar eich derbynneb. Bydd arnoch angen eich cyfeirnod os bydd arnoch angen cysylltu â ni.

Mae'n rhatach ac yn haws ymgeisio yn www.gov.uk/apply-renew-passport

# Mae'n rhatach ac yn haws ymgeisio ar-lein

- ✓ **Arbedwch arian** trwy ymgeisio ar-lein
- ✓ Gallwch gael **negeseuon testun** â'r newyddion diweddaraf ac olrhain eich cais ar-lein




**www.gov.uk/apply-renew-passport**

# Cynnwys


## Cyn i chi ymgeisio am basbort 1

Ffyrdd o ymgeisio 1

## Sut i lenwi pob adran o'ch ffurflen gais bapur 2

Adran 1: Pa fath o basbort sydd arnoch ei angen a'r adrannau i'w llenwi 2

- R Adnewyddu 2
- F Pasbort Prydeinig cyntaf 3
- RP Cyfnewid pasbort 3
- C Newidiadau 3
- E Estyniad 4

Adran 2: Ar gyfer pwy mae'r pasbort? 5

Adran 3: Manylion pasbortau cyfredol a blaenorol a ddelir 6

Adran 4: Manylion rhiant 7

Adran 5: Tystysgrif gofrestru neu ddinasyddiad 8

Adran 6: Plant 12 i 15 oed 8

Adran 7: 9

Adran 8: Rhagor o wybodaeth 9

Adran 9: Datganiad 10

Adran 10: Adlofnod 12


Er mwyn eich helpu i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach trwy'r llyfryn hwn rydym wedi rhoi logo i bob math o basbort. Os byddwch yn edrych trwy'r llyfryn hwn fe fyddwch yn gweld y logo mewn adrannau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt. Mae Tudalennau 2-4 yn dweud pa basbort y mae angen i chi ymgeisio amdano.


## Galwedigaethau derbyniol ar gyfer adlofnodwyr 13

## Dogfennau y bydd angen i chi eu hanfon atom ni 14

Man cychwyn i'r holl geisiadau CWESTIWN 1 14

Cwestiynau ychwanegol ar gyfer:

- ceisiadau adnewyddu, cyfnewid, newidiadau ac estyniad 15
- cais am basbort Prydeinig cyntaf 16
- ymgeiswyr wedi eu geni neu eu mabwysiadu dramor 17
- enw'r ymgeisydd wedi newid – tabl newid enw 18

## Cyfarwyddyd ffotograff 19

Cael eich ffotograffau yn iawn 19

## Ar ôl i chi lenwi eich cais 21

- Ffi pasbort 21
- Sut i dalu 21
- Cyfweliadau Hunaniaeth 21
- Gwybodaeth dosbarthu 22

## Cysylltwch â ni 23

Gwybodaeth arall 23

- Diogelu eich gwybodaeth bersonol 23
- Safonau gwasanaeth 23

## Cyfarwyddiadau ar gyfer talu gyda cherdyn credyd neu ddebyd 26

## Rhestr wirio cyn i chi anfon eich cais atom Clawr cefn


Chwiliwch am y blychau defnyddiol yma ar y ffurflen gais a thrwy'r llyfryn cyfarwyddyd hwn.

AWGRYM DA

OSGOI OEDI

Am help a chyngor ychwanegol, ewch i'n gwefan ar www.gov.uk

# Cyn i chi ymgeisio am basbort

## Ffyrdd i ymgeisio am basbort

PWYSIG:

Peidiwch ag archebu eich taith nes byddwch wedi derbyn eich pasbort newydd, gan na allwn dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw daith y byddwch wedi ei harchebu. Er mwyn osgoi oedi, bydd arnom angen ffurflen wedi ei llenwi'n gyflawn, 2 ffotograff addas, y dogfennau cywir a'r ffi.

### Ar-lein

Ewch i www.gov.uk/apply-renew-passport
Mae'n rhatach ac yn haws ymgeisio ar-lein. Fe ddywedwn wrthych pa fanylion y bydd angen i chi eu rhoi a pha ddogfennau y bydd angen i chi eu hanfon atom ni. Nid oes angen ichi ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd hyn.

### Gwasanaeth Gwirio a Danfon y Swyddfa Bost (adnewyddu i rai 16+ yn unig)

Ewch i www.gov.uk/how-the-post-office-check-and-send-service-works (ffi ychwanegol yn berthnasol, gweler yr adran ffi am basbort). Bydd angen i chi ddod â'ch hen basbort i Swyddfa'r Post. Byddant yn tynnu eich llun, yn llenwi'r cais ar-lein ac yn ei gyflwyno drosoch chi. Byddant yn anfon eich hen basbort i Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi trwy Ddosbarthiad Arbennig (mae hyn yn cael ei gynnwys yn y ffi ychwanegol a godir gan Swyddfa'r Post).

### Gwasanaeth Gwirio a Danfon y Swyddfa Bost

Ewch i www.gov.uk/how-the-post-office-check-and-send-service-works (ffi ychwanegol yn berthnasol, gweler yr adran ffi am basbort). Bydd Swyddfa'r Post yn gwirio eich ffurflen gais, eich dogfennau i gefnogi'r cais, y 2 ffotograff, a'ch ffi. Yna bydd Swyddfa'r Post yn anfon eich cais trwy Ddosbarthiad Arbennig Gwarantedig y Post Brenhinol (mae hwn yn gynwysedig yn y ffi ychwanegol, sy'n cael ei chodi gan Swyddfa'r Post).

### Post

Defnyddiwch yr amlen a ddaeth gyda'r pecyn i anfon eich ffurflen gais wedi ei llenwi yn llawn, y dogfennau i gefnogi'r cais, 2 ffotograff, a'ch ffi. Rhaid i chi roi'r stampiau cywir ar eich amlen.

### Trwy apwyntiad i gael pasbort yn gyflym

Ewch i www.gov.uk/get-a-passport-urgently
Efallai y byddwch yn gallu cael pasbort trwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Premiwm 1 diwrnod (cyn pen 4 awr fel arfer, er y gallai hyn fod y diwrnod wedyn os bydd y swyddfa ar fin cau) neu wasanaeth Llwybr Cyflym 1 wythnos. Bydd angen i chi archebu a thalu am apwyntiad ar-lein a mynd i'r swyddfa basbort gyda ffurflen gais wedi ei llenwi yn gyflawn, 2 ffotograff a'r dogfennau cywir i gefnogi'r cais. Fel arall, efallai y gallwch adnewyddu eich pasbort ar frys ar-lein.Cefnogaeth Ychwanegol

**AWGRYM DA**
**Sut i osgoi oedi**

Darllenwch y ffurflen gais a'r nodiadau cyfarwyddyd yma i gyd, neu ystyriwch ymgeisio ar-lein.

Mae'n rhatach ac yn haws ymgeisio ar-lein. Ewch i www.gov.uk/apply-renew-passport

**OSGOI OEDI**
**I ymgeiswyr sy'n byw dramor**

Os ydych chi'n byw tu allan i'r Deyrnas Unedig, rydych yn ymgeisio mewn ffordd wahanol. Ewch i www.gov.uk/overseas-passports i gael cyngor.

Peidiwch â defnyddio'r ffurflen a ddaeth gyda'r nodiadau cyfarwyddyd.


Yn ymweld â'r Deyrnas Unedig ac am ymgeisio pan fyddwch yno?

Ewch i www.gov.uk/passport-application-while-visiting-uk i gael cyngor.

Mae cymorth ychwanegol ar gael i unrhyw un sydd ag anabledd. Gallwch ddysgu mwy am y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig a sut i'w defnyddio yn www.gov.uk/passport-services-disabled.

# Sut i lenwi pob adran o'ch ffurflen gais bapur

## Awgrymiadau da cyn i chi lenwi eich ffurflen




- Llenwch y ffurflen bapur mewn PRIFLYTHRENNAU a BEIRO DDU yn unig.
- Peidiwch ag ysgrifennu y tu allan i'r blychau gwyn na thu allan i ffiniau'r llofnod.

### OSGOI OEDI

Os byddwch chi'n gwneud camgymeriad, croeswch o allan. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro. Os byddwch chi'n gwneud mwy na 3 chamgymeriad ar un llinell neu os nad ydych yn darparu llofnod clir yn adran 6 neu 9, bydd angen i chi lenwi ffurflen newydd.

Os bydd angen adlofnodwr ar eich ffurflen, rhaid i'ch adlofnodwr hefyd ysgrifennu yn y blychau gwyn a llofnodi o fewn y blwch llofnod yn adran 10.

## Adran 1: Pa fath o basbort sydd arnoch ei angen a'r adrannau i'w llenwi

Darllenwch y wybodaeth yn yr adran hon i gael gwybod pa fath o basbort sydd angen i chi ymgeisio amdano a pha adrannau sydd angen i chi eu llenwi. Mae 5 math gwahanol o gais; esbonnir y rhain ar dudalennau 2-4.

- Mae'r blwch Plentyn ar gyfer rhai dan 16 oed.
- Mae'r blwch Oedolyn ar gyfer y rhai 16 neu hŷn a'r rhai sy'n dod yn 16 oed yn y 3 wythnos nesaf.
- Mae pasbortau oedolion fel arfer yn ddilys am 10 mlynedd ac mae pasbortau plant fel arfer yn ddilys am 5 mlynedd.

### AWGRYM DA

Er mwyn eich helpu i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach trwy'r llyfryn hwn rydym wedi rhoi logo i bob math o basbort. Os byddwch yn edrych trwy'r llyfryn hwn fe fyddwch yn gweld y logo mewn adrannau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt.

## R Adnewyddu

Mae hyn yn berthnasol os:

- nad yw eich pasbort Prydeinig wedi ei ddifrodi
  AC
- nad yw eich enw, dyddiad geni, man geni, rhyw, ymddangosiad a chenedligrwydd wedi newid
  A
- nad ydych yn adnewyddu pasbort sydd wedi ei ysgrifennu â llaw. Os ydych yn adnewyddu pasbort wedi ei ysgrifennu â llaw, gweler tudalen 3 'Pasbort Prydeinig cyntaf'.

| | Adnewyddu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adrannau i'w llenwi | | | | | |
| Oedolyn 16 oed neu hŷn* | 1 | 2 | 3 | 9 | | |
| Plentyn Dan 16 oed | 1 | 2 | 3 | 4 | 6 Os yn 12-15 oed** | 9 |

* Neu ar fin troi'n 16 oed yn y 3 wythnos nesaf
** Neu ar fin troi'n 12 oed yn y 3 wythnos nesaf

Rhaid i Adran 10 gael ei llenwi ar gyfer:

- pob plentyn 11 oed neu iau
- pawb na ellir ei adnabod oddi wrth y ffotograff pasbort diwethaf.

Rhaid i'r adlofnodwr lenwi adran 10 ac ardystio un o'ch ffotograffau yn gywir. Gweler yr adran adlofnodwr ar dudalen 12.

## F Pasbort Prydeinig cyntaf

Mae hyn yn berthnasol i chi os:

- nad ydych erioed wedi cael pasbort Prydeinig o'r blaen
- cawsoch eich cynnwys fel plentyn ar basbort rhywun arall
- ydych yn adnewyddu pasbort ysgrifenedig
- ydych wedi dod yn ddinesydd Prydeinig trwy ddinasyddiad neu gofrestriad

| Pasbort Prydeinig cyntaf<br>Adrannau i'w llenwi | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolyn 16 oed neu hŷn* | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 9 | |
| Plentyn Dan 16 oed | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 Os yn 12-15 oed** | 9 |

* Neu ar fin troi'n 16 oed yn y 3 wythnos nesaf
** Neu ar fin troi'n 12 oed yn y 3 wythnos nesaf

Rhaid i Adran 10 gael ei llenwi ar gyfer: pob cais oedolyn a phlentyn

Rhaid i'r adlofnodwr lenwi adran 10 ac ardystio un o'ch ffotograffau yn gywir. Gweler yr adran adlofnodwr ar dudalen 12.

## RP Cyfnewid

Mae hyn yn berthnasol os:

- ydych chi eisiau cyfnewid pasbort Prydeinig sydd wedi ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi

| Cyfnewid<br>Adrannau i'w llenwi | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolyn 16 oed neu hŷn* | 1 | 2 | 3 | 4 | 8 os bydd y pasbort wedi ei ddifrodi | 9 | |
| Plentyn Dan 16 oed | 1 | 2 | 3 | 4 | 6 Os yn 12-15 oed** | 8 os bydd y pasbort wedi ei ddifrodi | 9 |

* Neu ar fin troi'n 16 oed yn y 3 wythnos nesaf
** Neu ar fin troi'n 12 oed yn y 3 wythnos nesaf

Rhaid i Adran 10 gael ei llenwi ar gyfer: pob cais oedolyn a phlentyn

Rhaid i'r adlofnodwr lenwi adran 10 ac ardystio un o'ch ffotograffau yn gywir. Gweler yr adran adlofnodwr ar dudalen 12.

## C Newidiadau

Mae hyn yn berthnasol os byddwch am newid eich pasbort Prydeinig cyfredol. Eich bod yn newid:

- eich enw, dyddiad geni, man geni, rhyw neu genedligrwydd
- eich ffotograff (gan gynnwys pan na ellir eich adnabod oddi wrth eich ffotograff pasbort presennol)

| Newidiadau<br>Adrannau i'w llenwi | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolyn 16 oed neu hŷn* | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 9 | |
| Plentyn Dan 16 oed | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 Os yn 12-15 oed** | 9 |

* Neu ar fin troi'n 16 oed yn y 3 wythnos nesaf
** Neu ar fin troi'n 12 oed yn y 3 wythnos nesaf

Rhaid i Adran 10 gael ei llenwi ar gyfer:

- pob plentyn 11 oed neu iau
- pawb na ellir ei adnabod oddi wrth y ffotograff pasbort diwethaf.

Rhaid i'r adlofnodwr lenwi adran 10 ac ardystio un o'ch ffotograffau yn gywir. Gweler yr adran adlofnodwr ar dudalen 12.

## E Estyniad

Mae hyn yn berthnasol os rhoddwyd eich pasbort diwethaf am flwyddyn neu lai.

| | Estyniad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adrannau i'w llenwi | | | | | |
| Oedolyn 16 oed neu hŷn* | 1 | 2 | 3 | 4 | 9 | |
| Plentyn Dan 16 oed | 1 | 2 | 3 | 4 | 6 Os yn 12-15 oed** | 9 |

* Neu ar fin troi'n 16 oed yn y 3 wythnos nesaf
** Neu ar fin troi'n 12 oed yn y 3 wythnos nesaf

Rhaid i Adran 10 gael ei llenwi ar gyfer:

- pob plentyn 11 oed neu iau
- pawb na ellir ei adnabod oddi wrth y ffotograff pasbort diwethaf.

Rhaid i'r adlofnodwr lenwi adran 10 ac ardystio un o'ch ffotograffau yn gywir. Gweler yr adran adlofnodwr ar dudalen 12

## Angen dosbarthiad diogel i ddychwelyd eich dogfennau i gefnogi'r cais?

Oni bai eich bod yn talu am ddosbarthiad diogel, bydd y dogfennau y byddwch yn eu hanfon atom ni yn cael eu dychwelyd atoch trwy bost ail ddosbarth y Post Brenhinol.

Rhowch 'X' yn y blwch 'dosbarthiad diogel' os hoffech i ni anfon eich dogfennau i gefnogi'r cais yn ôl trwy ddosbarthiad diogel. Bydd angen i chi dalu'r ffi dosbarthiad diogel (gweler yr adran ffi am basbort). Os byddwch yn rhoi croes yn y blwch ac na fyddwch yn talu'r ffi ychwanegol, bydd hyn yn achosi oedi i'ch cais.

Os byddwch yn talu am ddosbarthiad diogel gallwch olrhain eich pecyn, neu ddod o hyd i wybodaeth ddosbarthu lawn yn:
www.tnt.com/campaign/en_gb/hmpo.html

Ni allwn:

- gymryd cyfrifoldeb na darparu iawndal am unrhyw golled neu ddychweliad hwyr o'ch dogfennau i gefnogi'r cais pan fyddwn yn eu dychwelyd trwy'r post ail ddosbarth os nad ydych chi wedi gofyn am ddosbarthiad diogel
- gyfnewid unrhyw ddogfennau y byddwch yn adrodd eu bod ar goll 6 mis wedi i ni gyhoeddi'r pasbort.
- gymryd cyfrifoldeb am basbortau a dogfennau i gefnogi cais nad ydynt wedi eu dosbarthu os ydych chi'n nodi cyfeiriad anghywir neu os nad ydych yn rhoi gwybod i ni eich bod yn symud wrth i ni brosesu eich cais.

## OSGOI OEDI

Os byddwch yn gofyn i'ch **dogfennau i gefnogi cais** gael eu dychwelyd trwy ddosbarthiad diogel, cofiwch dalu'r ffi ychwanegol hon. Gweler y ffioedd ar dudalen 21. Er mwyn cael gwybod sut y bydd eich **pasbort newydd** yn cael ei ddosbarthu, gweler tudalen 22.

## Angen pasbort teithiwr cyson 50 tudalen?

Mae pasbort safonol yn 34 tudalen. Os ydych chi'n deithiwr cyson ac angen lle ychwanegol ar gyfer teithebau, dewiswch 'pasbort 50 tudalen' ar y ffurflen gais. Mae pasbortau teithiwr cyson 50 tudalen yn costio mwy na phasbort 34 tudalen.

## Angen sticer Braille ar eich pasbort newydd?

Os oes gennych chi neu'r ymgeisydd nam ar eich golwg a bod angen sticer Braille arnoch i'w roi ar eich pasbort newydd, rhowch groes (X) yn y blwch 'Braille'.

# Adran 2: Ar gyfer pwy y mae'r pasbort?

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## OSGOI OEDI

- Dylai'r enw y byddwch yn ei roi ar y ffurflen gyfateb yn union â'ch pasbort Prydeinig blaenorol neu'r dogfennau y byddwch yn eu hanfon atom ni. Er enghraifft eich tystysgrif geni neu fabwysiadu, tystysgrif priodas, tystysgrif cenedligrwydd.
- Os nad oes digon o le yn y blychau a ddarparwyd, defnyddiwch adran 8 y ffurflen gais i roi eich enw llawn.

## Enwau i'w dangos ar eich pasbort

- Gallwn ychwanegu nifer gyfyngedig o deitlau at eich pasbort Prydeinig os gofynnwch chi. Gweler www.gov.uk/changing-passport-information am fanylion.
- Rhowch enw'r unigolyn y mae'r pasbort ar ei gyfer dan 'cyfenw' ac 'enwau cyntaf a chanol'
- Dylai'r enw a ddangosir ar y pasbort fod yr enw a ddefnyddiwch ar gyfer pob diben - hynny yw, dylai'r enw ar eich pasbort newydd gyfateb i'r enw sy'n ymddangos ar eich dogfennau i gefnogi'r cais (fel eich tystysgrif geni neu basbort blaenorol). Os ydych chi'n wladolyn deuol a bod gennych chi basbort nad yw'n un Prydeinig dan enw gwahanol, rhaid i chi ei newid i gyd-fynd â'r enw yr ydych ei eisiau ar eich pasbort Prydeinig. Rhaid i chi wneud hyn cyn i chi wneud eich cais.
- Dim ond hyd at 30 o nodau allwn ni eu dangos (yn cynnwys bylchau) ar eich pasbort ar gyfer enwau cyntaf a chanol, a 30 nod arall ar gyfer cyfenwau. Os nad yw eich enwau'n ffitio yn y blychau a ddarparwyd, dylech eu cwtogi yn y modd yr hoffech iddynt ymddangos ar eich pasbort. Yna dylech ysgrifennu eich enw llawn yn adran 8 o'r ffurflen. Byddwn yn ychwanegu eich enw llawn ar dudalen arsylwadau eich pasbort.
- Os ydych chi wedi newid eich enw, rhowch eich enw fel y mae nawr.

## Newid enw mewn pasbort

- Os ydych chi'n newid eich enw, rhowch eich enw newydd yn y blychau 'cyfenw' ac 'enwau cyntaf a chanol' a rhowch eich enwau blaenorol yn y blychau 'enw cyn priodi neu bob enw blaenorol'.
- Os nad ydych bellach eisiau i'ch enw canol gael ei gynnwys yn eich pasbort newydd pan fydd wedi ymddangos ar basbortau blaenorol, nodwch hynny yn adran 8 y ffurflen gais a darparu tystiolaeth o'r newid. Gweler y tabl newid enw ar dudalen 18 am fanylion. Os nad ydych, byddwn yn rhoi eich enw i gyd-fynd â'r hyn sydd ar eich pasbort blaenorol.
- Os byddwch yn sillafu eich enw'n wahanol, newid trefn eich enwau neu'n ychwanegu enw newydd o gymharu â beth sydd yn eich pasbort blaenorol, yna bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'r newid enw. Gweler y tabl newid enw ar dudalen 18 am ragor o fanylion.
- Rhowch brawf o'ch newid enw os yw hyn yn wahanol i'ch dogfennau i gefnogi eich cais. Anfonwch brawf i gefnogi pob newid enw. Mae hyn yn berthnasol i chi os ydych chi'n priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil ac eisiau i'ch pasbort fod yn eich enw newydd. Gweler y tabl newid enw ar dudalen 18 am ragor o fanylion.
- Rhestrwch eich holl enwau cyn priodi neu flaenorol a ddefnyddiwyd i'ch adnabod (cyfenw'n gyntaf ac yna enwau cyntaf a chanol). Gadewch fwlch rhwng pob enw. Os na fyddant yn ffitio yn y blychau, dylech eu hysgrifennu'n llawn yn adran 8.
- Ni allwch chi newid enw plentyn oni bai bod gennych chi ganiatâd pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Gweler adran 9 ar gyfrifoldeb rhiant am ragor o wybodaeth.

## Cyfeiriad presennol yn y Deyrnas Unedig

- Rhowch eich cyfeiriad preswyl llawn (lle rydych chi'n byw) yn cynnwys rhif stryd a'ch cod post llawn. Rhaid i hwn fod yn gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig a dyma lle byddwn yn dosbarthu eich pasbort iddo fel arfer. Os oes gan eich tŷ enw, pan fydd yn bosibl rhowch y rhif yn y stryd i sicrhau ein bod yn dosbarthu'r pasbort i'r cyfeiriad cywir. Gallwch wirio manylion eich cyfeiriad ar wefan y Post Brenhinol ar http://royalmail.com/postcode-finder
- Efallai y byddwn yn gwirio eich bod yn byw yn y cyfeiriad a roddwch. Os nad ydych, gallai beri oedi i'ch cais oni bai eich bod yn esbonio'r amgylchiadau yn adran 8 y ffurflen gais.
- Ni fyddwn fel arfer yn dychwelyd eich pasbort i gyfeiriad sy'n wahanol i'ch cyfeiriad cyfredol. Os ydych chi eisiau iddo gael ei ddosbarthu i gyfeiriad gwahanol, esboniwch pam a rhowch y cyfeiriad arall yn adran 8. Efallai y byddwn yn gofyn i chi am dystiolaeth o'ch cyswllt â'r cyfeiriad hwnnw.

## Rhywedd

- Rhowch groes yn y blwch perthnasol i ddweud os yw'r pasbort ar gyfer gwryw neu fenyw.
- Os ydych chi'n drawsryweddol (yn byw fel rhywedd gwahanol i'r hyn a nodir ar eich tystysgrif geni) neu os ydych chi wedi newid neu yn y broses o newid eich rhywedd, gallwch gael arweiniad pellach yn www.gov.uk/changing-passport-information.

## Dyddiad geni

- Rhowch eich dyddiad geni fel y mae wedi ei nodi ar eich tystysgrif geni, cofrestru neu ddinasyddiad neu basbort Prydeinig blaenorol.

## Man geni

- Rhowch enwau'r dref a'r wlad lle cawsoch eich geni fel y maent wedi eu nodi ar eich tystysgrif geni, cofrestru neu ddinasyddiad neu basbort Prydeinig blaenorol.

## Manylion cyswllt

Rydym yn argymell eich bod yn rhoi rhif ffôn symudol i ni, er mwyn i ni allu anfon neges destun atoch pan dderbyniwn eich ffurflen a phan fydd eich pasbort yn cael ei argraffu. Efallai y bydd ein negesydd yn ei ddefnyddio hefyd i helpu i ddosbarthu eich pasbort yn gynt.

Rhowch gymaint o fanylion cyswllt â phosibl a sicrhau bod y wybodaeth yn gywir gan y gall fod angen i ni gysylltu â chi ynghylch eich cais.

Os oes gennych chi rif Text Relay, nodwch hyn yn y gofod yn adran 8 os na fydd yn ffitio yn y blychau.

# Adran 3: Manylion pasbortau cyfredol a blaenorol

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

**OSGOI OEDI**

Rhaid i bawb lenwi adran 3A.

## Pasbortau heb eu canslo

Yn rhan B, nodwch fanylion pob pasbort heb ei ganslo yr ydych yn eu hanfon atom.

Mae cornel dde uchaf pasbort Prydeinig a ganslwyd wedi ei thorri i ffwrdd. Nid yw pasbort heb ei ganslo wedi ei ganslo gan yr awdurdod a'i cyhoeddodd (Prydain neu wlad arall). Gall hyn gynnwys:

- pasbort sydd wedi dod i ben (y mae ei gyfnod wedi gorffen)
- pasbortau yr ydych neu y cawsoch eich cynnwys arnynt (er enghraifft, fel plentyn), a
- pasbortau a roddwyd i chi gan wledydd eraill.

### Ar goll neu wedi ei ddwyn

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn rhoi adroddiad bod eich pasbort wedi ei golli neu ei ddwyn cyn gynted â phosibl i atal rhywun rhag camddefnyddio eich pasbort a'ch hunaniaeth. Gwnewch hyn ar-lein yn www.gov.uk/ report-a-lost-or-stolen-passport. Gallwch ofyn i gyfaill neu berthynas y gallwch ymddiried ynddo i'ch helpu. Gorau po gyntaf y byddwch yn rhoi adroddiad am hyn i sicrhau'ch bod wedi eich diogelu rhag i'ch pasbort gael ei gamddefnyddio.

Os yw eich pasbort wedi ei golli neu ei ddwyn, ond nad ydych wedi rhoi adroddiad am hyn eto, yna llenwch ran C. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl a dweud wrthym sut y cafodd eich pasbort ei golli neu ei ddwyn. Defnyddiwch adran 8 os nad oes digon o le yn y blychau addarparwyd. Os cafodd eich pasbort ei ddwyn, rhowch adroddiad am y lladrad i'r heddlu lleol a chynnwys y cyfeirnod trosedd yn adran 8. Byddwn yn canslo eich pasbort sydd wedi ei golli neu ei ddwyn pan dderbyniwn eich cais.

Os byddwch yn dod o hyd i'r pasbort y rhoddwyd adroddiad ei fod ar goll neu wedi ei ddwyn yn ddiweddarach, rhaid i chi ei ddychwelyd atom. Ni fyddwch yn gallu defnyddio'r pasbort o hyn ymlaen. Gall yr awdurdodau mewnfudo neu heddlu eich dal yn gaeth os ceisiwch wneud hynny.

Am resymau diogelwch, dylid dychwelyd unrhyw basbort y deuir o hyd iddo i ni neu drydydd parti fel yr Heddlu fel ei fod yn cael ei ddychwelyd atom i'w ganslo.

# Adran 4: Manylion rhiant

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## OSGOI OEDI

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os:

- yw'r pasbort ar gyfer rhywun dan 16 oed
- ydych yn gwneud cais am eich pasbort oedolyn cyntaf
- ydychynymgeisioigyfnewidpasbortsyddwedi ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi
- ydych chi'n ymgeisio am estyniad i'ch pasbort

Rhowch holl fanylion dau riant y sawl a enwir yn adran 2 y ffurflen gais.

At ddibenion cenedligrwydd, mae rhieni wedi eu diffinio dan y gyfraith fel 'mam' a 'tad'. Ni ellir sicrhau cenedligrwyddtrwyenedigaethbobamsertrwystatws cenedl y naill riant neu'r llall. Mae hyn yn cynnwys rhieni sydd o'r un rhyw. Oherwydd hyn, mae'n bwysig bod y 'fam' a'r 'tad' yn cael eu nodi yn y blychau cywir.

Os cafodd y naill riant neu'r llall eu geni ar neu ar ôl 1 Ionawr 1983, neu eu geni y tu allan i'r Deyrnas Unedig, nodwch y manylion canlynol yn adran 8 y ffurflen gais. Naill ai:

- enw llawn, tref a gwlad geni a dyddiad priodas rhieni eich mam neu riant 1 a rhieni eich tad neu riant 2, neu
- fanylion hawl eich rhieni i genedligrwydd Prydeinig.

Os yw eich 'mam' wedi priodi rhywun arall (nid eich tad biolegol) ar adeg eich geni nid eich 'tad biolegol' yw eich 'tad' o ran dibenion cenedligrwydd. Gweler gov.uk am ragor o wybodaeth.

Ni ddylai llys rieni neu eraill sydd yn rôl rhiant nad ydynt wedi eu diffinio naill ai fel 'mam' neu 'dad' at ddibenion cenedligrwydd lenwi eu manylion yn adran 4.

## AWGRYM DA

Am ragor o wybodaeth am genedligrwydd ewch i: www.gov.uk

### Mabwysiadu

Pan fydd plentyn yn cael ei fabwysiadu yn y Deyrnas Unedig, gellir sicrhau cenedligrwydd Prydeinig trwy'r naill riant neu'r llall. Os yw'r rhieni mabwysiadol o'r un rhyw, dylai'r rhiant sy'n ymddangos gyntaf ar y dystysgrif fabwysiadu roi ei fanylion yn y blwch 'mam neu riant 1' a dylai'r rhiant a enwir yn ail ar y dystysgrif fabwysiadu roi ei fanylion yn y blwch 'tad neu riant 2' beth bynnag yw eu rhyw.

### Plant a genhedlwyd trwy roddi sberm

Os cafodd eich plentyn ei genhedlu trwy roddi sberm a'i eni yn y Deyrnas Unedig, dylech lenwi'r ffurflen yn y ffordd arferol. Nid oes raid i chi ddweud wrthym os cafodd eich plentyn ei genhedlu trwy roddi sberm.

Os yw'r rhieni o'r un rhyw, dylai'r fam a roddodd enedigaeth roi ei manylion yn y blwch 'mam neu riant 1' a dylai'r rhiant a enwir yn ail ar dystysgrif geni'r plentyn roi ei fanylion yn y blwch 'tad neu riant 2'.

Os cafodd eich plentyn ei genhedlu trwy roddi sberm a'i eni tu allan i'r Deyrnas Unedig gweler www. gov.uk am wybodaethambaddogfennaufyddangenichieuhanfon.

### Benthyg croth

Pan fydd plentyn yn cael ei eni trwy drefniant benthyg croth gadewch i ni wybod yn adran 8 y ffurflen. Os bydd gorchymyn rhiant wedi ei roi yn y Deyrnas Unedig ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010, gellir cymryd cenedligrwydd trwy'r naill riant a enwir ar y gorchymyn neu'r llall. Os yw'r rhieni hyn o'r un rhyw, dylai'r rhiant sy'n ymddangos gyntaf ar y gorchymyn rhiant roi ei fanylion yn y blwch 'mam neu riant 1' a dylai'r rhiant a enwir yn ail ar y gorchymyn rhiant roi ei fanylion yn y blwch 'tad neu riant 2'.

Gall fod yn bosibl ymgeisio am basbort cyn i orchymyn rhiant gael ei ganiatáu. Gall ceisiadau pasbort yn ymwneud â benthyg croth fod yn gymhleth ac mae'n bosibl y byddwn angen cysylltu â chi am ragor o wybodaeth.

Ni fydd sôn am fanylion y rhieni na 'mam neu riant 1' a 'tad neu riant 2' yn ymddangos ar y pasbort. Defnyddir y wybodaeth hon yn syml i gasglu gwybodaeth sydd arnom ei hangen i roi pasbort.

## Plentyn gydag un rhiant

Os mai chi yw unig riant eich plentyn, llenwch naill ai'r adrannau 'Mam neu Riant 1' neu 'Tad neu Riant 2' ar y ffurflen, pa un bynnag sy'n berthnasol i chi, a gadael y llefydd ar gyfer rhiant arall yn wag.

Ychwanegwch nodyn yn adran 8 i ddangos mai chi yw'r unig riant a pham (p'un ai nad ydych yn adnabod rhiant arall y plentyn, eich bod yn fabwysiadwr unigol, neu'n rhiant unigol gyda phlentyn a aned trwy roddi sberm ac yn y blaen).

Am ragor o wybodaeth am yr amgylchiadau i bennu cenedligrwydd, ewch i www.gov.uk/british-passport-eligibility

# Adran 5: Tystysgrif gofrestru neu ddinasyddiad

F C Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

**OSGOI OEDI**

- Rhaid i chi roi croes yn y blwch 'Na' neu 'Ydw' os ydych yn ymgeisio am eich pasbort Prydeinig cyntaf.
- Rhaid i chi roi croes yn y blwch 'Na' neu 'Ydw' os ydych yn newid eich statws cenedl i ddinesydd Prydeinig.
- Peidiwch â chynnwys tystysgrif geni/mabwysiadu na manylion pasbort yn yr adran hon.

Mae'r blwch 'Na' yn berthnasol os nad yw'r sawl a enwir yn adran 2 wedi gwneud cais i'r Swyddfa Gartref i ddod yn Ddinesydd Prydeinig trwy gofrestriad neu ddinasyddiad. Dim ond pan fydd yr ymgeisydd wedi bodloni'r holl ofynion cyfreithiol y bydd cofrestriad neu dystysgrif dinasyddiad yn cael ei rhoi gan y Swyddfa Gartref. Rhowch 'X' yn y blwch 'Na'.

Mae'r blwch Ydw yn berthnasol os yw'r sawl a enwir yn adran 2 wedi gwneud cais i'r Swyddfa Gartref i ddod yn Ddinesydd Prydeinig trwy gofrestriad neu ddinasyddiad. Os bydd y Swyddfa Gartref wedi caniatáu dinasyddiaeth Brydeinig bydd y Swyddfa Gartref wedi rhoi tystysgrif gofrestru neu ddinasyddiad. Rhowch 'X' yn y blwch 'Ydw' a rhoi manylion y dystysgrif.

# Adran 6: Plant 12 i 15 oed

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

**OSGOI OEDI**

Mae angen i ymgeisydd sy'n blentyn 12 i 15 oed, neu blentyn a fydd yn 12 oed o fewn y 3 wythnos nesaf, lofnodi'r datganiad hwn.

Rhaid nodi dyddiad yn y blwch dyddiad. Rhaid i unigolyn â chyfrifoldeb rhiant lofnodi'r datganiad yn adran 9 o'r ffurflen.

Os nad yw eich plentyn yn gallu llofnodi'r ffurflen, dylech:

- adael yr adran hon yn wag, a
- defnyddio adran 8 neu anfon llythyr eglurhad yn cadarnhau pam na all y plentyn lofnodi. Gall y rhiant neu ofalwr neu feddyg y plentyn ysgrifennu hwn.

## Adran 7:

Peidiwch ag ysgrifennu yn yr adran hon. Mae’r rhan hon wedi ei gadael yn wag yn fwriadol.

## Adran 8: Rhagor o wybodaeth

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

### OSGOI OEDI

Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o bobl lenwi'r adran hon. Mae'r adrannau isod yn dangos i chi pryd ddylech chi roi rhagor o wybodaeth i ni gan ddefnyddio'r adran hon.

### Enwau

- Enwau nad oeddech yn gallu eu ffitio yn y blychau yn adran 2.
- Os ydych wedi newid eich enw oherwydd eich bod wedi priodi, ond eich bod am barhau i ddefnyddio eich enw cyn priodi at ddibenion proffesiynol, dylech wneud datganiad yn adran 8 y ffurflen gais a byddwn yn ychwanegu nodyn ar dudalen arsylwadau eich pasbort yn dangos eich enw cyn priodi.
- i gadw sylw yn eich pasbort newydd.

### Cyfeiriadau

- Dywedwch wrthym pam eich bod angen i’ch pasbort gael ei anfon i gyfeiriad arall a rhoi'r cyfeiriad arall i ni.

### Pasbort wedi ei ddifrodi

- Os yw eich pasbort wedi ei ddifrodi, esboniwch yn gryno sut y cafodd ei ddifrodi.

### Cyfrifoldeb rhiant

- Rhaid i chi ddatgelu a rhoi unrhyw orchmynion llys yn ymwneud â’r plentyn i ni, a all effeithio ar y cais am basbort.

### Os oes gennych anabledd

- Os oes gennych chi anabledd sy'n golygu na allwch chi fodloni'r gofynion pasbort. Cynhwyswch lythyr gan eich meddyg, a dweud os yw'n anabledd parhaol neu dros dro.
- Os oes gennych chi gyflwr meddyliol neu gorfforol a fyddai'n eich atal rhag cymryd rhan mewn cyfweliad hunaniaeth. Cynhwyswch lythyr gan eich meddyg, a dweud os yw'n gyflwr parhaol neu dros dro.
- Os nad oedd yn bosibl rhoi llofnod yn adran 6 neu 9, dywedwch wrthym yn adran 8 a chynnwys llythyr esboniadol gan unigolyn priodol fel rhiant (ar gyfer adran 6) neu feddyg, gofalwr neu weithiwr cymdeithasol. Bydd angen iddo/iddi lofnodi'r cais ar eich rhan.
- Eich rhif ffôn Typetalk neu eich dull dewisol o gyfathrebu os ydych chi'n ddall neu'n gweld yn rhannol (er enghraifft, dros y ffôn neu mewn print bras).

### Teidiau a neiniau a manylion benthyg croth

- Manylion nain a thaid/mam-gu a thad-cu os cafodd y ddau riant a enwir yn adran 4 eu geni ar ôl 1 Ionawr 1983 neu os cawsant eu geni dramor.
- Os cafodd yr ymgeisydd ei eni trwy drefniant benthyg croth.

Sylwer: Rhowch enw(au) llawn, dyddiad geni, a man geni yn ychwanegol at unrhyw fanylion pasbort Prydeinig; er enghraifft rhif pasbort Prydeinig a’i fan cyhoeddi. Os priodwyd y taid a’r nain/tad-cu a mam-gu, bydd arnom hefyd angen gwybod dyddiad y briodas at ddibenion cenedligrwydd.

### Cynllun Preswylio’r UE

Os rhoddwyd Hawl Amhenodol i Aros (ILR) i chi dan Gynllun Preswylio’r UE a’ch bod yn ymgeisio am basbort Prydeinig cyntaf eich plentyn, bydd angen i chi:

- roi eich Rhif Ymgeisio Unigryw (UAN) i ni. Rhif 16 digid ar y ffurf xxxx-xxxx-xxxx-xxxx yw hwn. Fe welwch eich UAN ar yr e-bost a gawsoch gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau eich bod wedi cael ILR dan Gynllun Preswylio’r UE. Fe welwch yr UAN yng nghornel uchaf ar y dde eich e-bost gan y Swyddfa Gartref; wrth ochr ‘Ein Cyf’.

### Dim digon o le yn Adran 8

- Os nad oes digon o le yn adran 8, cynhwyswch unrhyw wybodaeth atodol ar ddalen wag o bapur. Dylech lofnodi hon a'i chynnwys gyda'ch ffurflen gais.

# Adran 9: Datganiad

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## OSGOI OEDI

- Cyn i chi lenwi a llofnodi'r datganiad, darllenwch y ffurflen eto i sicrhau bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir.
- Llenwch yr adran hon os ydych chi'n 16 oed neu hŷn ac yn ymgeisio am:
  – eich pasbort eich hun
  – basbort i'r plentyn a enwir yn adran 2

neu

- rywun sy'n methu llofnodi a'ch bod yn llofnodi ar ei ran.
- Darllenwch bwyntiau 1 i 9 yn adran datganiad y ffurflen cyn i chi ddyddio a llofnodi'r ffurflen.
- Os ydych chi'n ymgeisio ar ran plentyn, rhowch eich enw llawn a'ch perthynas â'r plentyn.

Pobl 16 oed a hŷn sy'n ymgeisio

Os ydych chi yn 16 oed neu'n hŷn, neu os byddwch yn dod yn 16 oed cyn pen 3 wythnos, llofnodwch y datganiad eich hun. Nid oes arnoch angen caniatâd gan unigolyn gyda chyfrifoldeb rhiant. Ni all eich pasbort 'oedolyn' gael ei roi cyn i chi droi yn 16 oed.

Ar gyfer ymgeiswyr gydag anabledd dysgu nad ydynt yn gallu deall goblygiadau llofnodi'r datganiad yn adran 9, dylai rhywun gyda chyfrifoldeb rhiant roi caniatâd. Defnyddiwch adran 8 y ffurflen i esbonio pam nad yw'r ymgeisydd yn gallu llofnodi'r datganiad.

Cyfrifoldeb rhiant

Rhaid i blentyn dan 16 oed gael caniatâd gan unigolyn â chyfrifoldeb rhiant.

Mae gan y fam gyfrifoldeb rhiant awtomatig ar gyfer ei phlentyn o'i enedigaeth, a gall roi caniatâd, ar yr amod nad yw'r llys wedi cymryd y cyfrifoldeb rhiant oddi arni.

Gall y tad roi caniatâd os:

- oedd yn briod â'r fam ar adeg genedigaeth y plentyn (neu, i'r rhai sy'n byw yn y Alban, pan feichiogodd y fam)
- oedd yn briod â'r fam ar unrhyw adeg wedi genedigaeth y plentyn
- oedd â gorchymyn neu gytundeb cyfrifoldeb rhiant (y mae'n rhaid ei anfon gyda'r cais)
- oes ganddo orchymyn trefniadau plentyn sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant (rhaid i hwn gael ei anfon gyda'r cais), neu
- os yw wedi ei enwi ar y dystysgrif geni (rhaid anfon hon gyda'r cais) a bod yr enedigaeth wedi ei chofrestru ar y cyd ar neu ar ôl
  – 15 Ebrill 2002 yng Ngogledd Iwerddon
  – 1 Rhagfyr 2003 yng Nghymru a Lloegr, neu
  – 4 Mai 2006 yn yr Alban.

Ar gyfer plant a aned i bartneriaid un rhyw benywaidd a feichiogodd trwy roddi sberm, gall yr ail riant benywaidd roi caniatâd os:

- oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar adeg cenhedliad y plentyn ac y cydsyniodd â'r cenhedliad
- oedd â gorchymyn neu gytundeb cyfrifoldeb rhiant (y mae'n rhaid ei anfon gyda'r cais)
- oes ganddi orchymyn trefniadau plentyn sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant (rhaid i hwn gael ei anfon gyda'r cais), neu
- os yw wedi ei henwi ar y dystysgrif geni (rhaid anfon hon gyda'r cais) a bod yr enedigaeth wedi ei chofrestru ar y cyd ar neu ar ôl
  – 15 Ebrill 2002 yng Ngogledd Iwerddon
  – 1 Rhagfyr 2003 yng Nghymru a Lloegr, neu
  – 4 Mai 2006 yn yr Alban.

Os yw rhiant y plentyn dan 16 oed, gall lofnodi'r datganiad ar ran y plentyn.

Os yw plentyn wedi ei fabwysiadu, gall y naill riant mabwysiadol neu'r llall roi caniatâd.

Os yw'r rhieni wedi ysgaru, ni fydd cytundeb trefniadau plentyn neu orchymyn cynhaliaeth yn disodli cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig.

Os yw plentyn wedi ei eni trwy drefniant benthyg croth, gall y naill riant a enwir ar y gorchymyn rhiant neu dystysgrif geni neu'r llall roi caniatâd. Os gwneir y cais cyn cyhoeddi'r gorchymyn rhiant, mae'r rheolau yn fwy cymhleth. Cysylltwch â ni am arweiniad os yw hyn yn berthnasol i chi.

Gall llys rieni (oedolion sy'n priodi neu yn creu partneriaeth sifil gyda rhywun sydd eisoes wedi ei ddiffinio fel rhiant fel yr esboniwyd uchod) roi caniatâd, ond dim ond os oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant trwy orchymyn cyfrifoldeb rhiant, gorchymyn trefniadau plentyn yn rhoi cyfrifoldeb rhiant neu gytundeb cyfrifoldeb rhiant.

Os yw'r plentyn mewn gofal neu'n byw gyda rhieni maeth, bydd angen caniatâd gan yr awdurdod lleol cyn y gallwn roi pasbort i'r plentyn. I gael nodiadau cyfarwyddyd ar wahân ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, ewch i www.gov.uk/ government/ publications


Os yw'r llys wedi gwneud gorchymyn ynghylch gyda phwy y dylai'r plentyn fyw, neu ynghylch y plentyn yn cael pasbort, rhaid anfon hyn i mewn gyda'r cais. Os oes rhywun wedi gwrthwynebu i'r plentyn gael pasbort, efallai y byddwn yn gwrthod rhoi pasbort.

Os oes oedolyn yn gweithredu fel rhiant mewn sefyllfa ar wahân i'r un a ddisgrifiwyd yn yr adran hon, esboniwch yr amgylchiadau mewn llythyr i gyd-fynd â'ch cais. Byddwn hefyd angen prawf dogfennol o'ch cyfrifoldeb dros y plentyn.

Os ydyn ni eisoes wedi rhoi pasbort i blentyn wedi i un rhiant wneud cais, ni all y rhiant arall nac unrhyw un arall gyda chyfrifoldeb rhiant ymgeisio am basbort ar wahân i'r plentyn hwnnw.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen gais:

- gofynnwch i rywun arall ei llofnodi ar eich rhan, a
- dywedwch wrthym yn adran 8 a chynnwys llythyr eglurhaol i esbonio pam na allwch chi lofnodi. Fel arfer fe wneir hyn gan y sawl sy'n llenwi'r ffurflen gais ar eich rhan. Bydd eich pasbort yn nodi nad oes rhaid i'r deiliad lofnodi.
- Am ragor o gyngor neu os na all y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant roi caniatâd, gweler tudalen 23 am ffyrdd i gysylltu â ni.




# Ymgeisiwch am dystysgrifau geni, priodas, marwolaeth a mabwysiadu ar-lein.

Ewch i'r wefan:
www.gov.uk/bmdcertificates

# Adran 10: Adlofnod

R F RP C E

Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## OSGOI OEDI

Bydd angen i 'adlofnodwr' lenwi'r adran hon os ydych chi'n ymgeisio:

- am basbort Prydeinig cyntaf
- i gyfnewid pasbort sydd wedi ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi
- i adnewyddu pasbort plentyn (os yw'r plentyn yn 11 oed neu'n iau)
- i adnewyddu pasbort (oedolyn neu blentyn 12 i 15 oed) os na ellir eich adnabod o'r ffotograff yn eich pasbort cyfredol, neu
- i ymestyn pasbort.

## Adlofnodwyr

Mae adlofnodwr yn rhywun sy'n gallu cadarnhau eich hunaniaeth. Mae angen iddo/iddi gadarnhau, hyd eithaf ei wybodaeth, bod y manylion a roddwyd gennych ar eich cais yn gywir, a rhaid iddo/iddi hefyd gadarnhau bod y ffotograff yn un ohonoch chi.


Ar gyfer ceisiadau plant (dan 16 oed) mae hyn hefyd i gadarnhau ei fod/ei bod wedi adnabod, ers o leiaf 2 flynedd, yr oedolyn a lofnododd y datganiad yn adran 9 y ffurflen gais. Rhaid iddo/iddi hefyd gadarnhau bod gan yr unigolyn gyfrifoldeb rhiant am y plentyn a chadarnhau bod ffotograff y plentyn yn un cywir.

Rhaid i'r adlofnodwr:

- fod wedi eich adnabod yn bersonol ers o leiaf 2 flynedd (er enghraifft, ffrind, cymydog neu gydweithiwr, ac nid rhywun sy'n eich adnabod yn broffesiynol)
- fod yn rhywun proffesiynol (gweler galwedigaethau adlofnodwyr ar dudalen 13)
- fod yn byw yn y Deyrnas Unedig, ac
- yn ddeiliad pasbort Prydeinig neu Wyddelig nad yw wedi dod i ben.

Mae angen i'r adlofnodwr:

- ddarllen trwy'r ffurflen gais a gwblhawyd i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir
- lenwi adran 10 y ffurflen, gan roi rhif ei basbort neu ei phasbort, ac yna llofnodi'r blwch
- roi cyfeiriad llawn a manylion cyswllt. Gall hyn fod yn gyfeiriad busnes neu gyfeiriad cartref, ond dylai fod yn un lle gallwn gysylltu ag ef neu hi. Gall yr adlofnodwr roi cyfeiriad e-bost ar ddarn o bapur ar wahân os yw hynny'n fwy cyfleus.
- ar gyfer cais oedolyn, 'ardystio' un (nid y ddau) o'ch ffotograffau - gan lofnodi a dyddio un o'r lluniau fel y dangosir yn yr enghraifft isod.
- ar gyfer cais plentyn (dan 16 oed), cadarnhau ei fod neu ei bod wedi adnabod yr oedolyn a lofnododd y datganiad yn adran 9 y ffurflen gais ers o leiaf 2 flynedd, ac ardystio un ffotograff (gan roi enw llawn y plentyn), ei lofnodi a'i ddyddio fel y nodwyd yn yr enghraifft isod, a
- rhoi llythrennau cyntaf ei enw neu ei henw nesaf at unrhyw gamgymeriadau a wnaed yn adran 10.




Raid i'r adlofnodwr beidio â:

- bod yn perthyn i chi trwy waed na phriodas (yn cynnwys teulu yng nghyfraith neu bartneriaid aelodau teulu)
- bod mewn perthynas bersonol gyda chi
- byw yn eich cyfeiriad, neu
- weithio i ni yn Swyddfa Pasbortau EM.

Beth fyddwn ni'n wneud gyda manylion yr adlofnodwr

Yn rhan o'n gwaith byddwn yn gwirio bod yr adlofnodwr yn un dilys. Gall hyn gynnwys gwirio ei basbort/phasbort a chofnodion eraill i gadarnhau ei hunaniaeth a'i broffesiwn/phroffesiwn neu gymhwyster proffesiynol.

Gwnewch yn siŵr bod eich adlofnodwr yn gwybod y gallwn fod mewn cysylltiad ac y byddwn yn cynnal y gwiriadau hyn.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu ffurflen gais arall gyda gadlofnodwr gwahanol os nad ydym yn hapus gyda'ch dewis o adlofnodwr neu os na allwn gael gafael ar yr adlofnodwr.

# Galwedigaethau derbyniol ar gyfer adlofnodwyr

## OSGOI OEDI

Fe ofynnir i chi ddod o hyd i rywun arall os na fydd eich adlofnodwr yn bodloni'r gofynion

Rhaid i'ch adlofnodwr naill ai:

- weithio mewn proffesiwn cydnabyddedig (neu fod wedi ymddeol o un)
- fod yn 'unigolyn o barch yn ei gymuned'

## Proffesiynau cydnabyddedig

Mae'r enghreifftiau o swyddi proffesiynol cydnabyddedig yn cynnwys:

- aelod, aelod cyswllt neu gymrawd corff proffesiynol
- Aelod Seneddol
- asiant teithio - cymwysedig
- asiant yswiriant (llawn amser) mewn cwmni cydnabyddedig
- asiant yswiriant mewn cwmni cydnabyddedig
- athro, darlithydd
- bargyfreithiwr
- cadeirydd/cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig
- canolwr gwasanaethau ariannol, er enghraifft brocer stoc neu yswiriant
- ciropodydd
- clerc erthyglog mewn cwmni cyfyngedig
- cyfarwyddwr/rheolwr/swyddog personél cwmni sydd wedi cofrestru i dalu TAW
- cyfrifydd
- cyfreithiwr
- cynghorydd, ee lleol neu sir
- deiliad trwydded safle neu bersonol ddilys dan y Ddeddf Trwyddedu
- deintydd
- fferyllydd
- ffotograffydd - proffesiynol
- gwas sifil (parhaol)
- gweinidog crefydd gydnabyddedig - yn cynnwys Gwyddor Gristnogol
- gweithiwr cymdeithasol
- llywydd neu ysgrifennydd sefydliad cydnabyddedig
- newyddiadurwr
- nyrs - RGN neu RMN
- optegydd
- paragyfreithiwr - ardystiedig, cymwysedig neu aelod cyswllt o Sefydliad y Paragyfreithwyr
- peiriannydd - gyda chymwysterau proffesiynol
- prisiwr neu arwerthwr - cymrawd neu aelod cyswllt yn y gymdeithas gorfforedig
- rheolwr/swyddog personél cwmni cyfyngedig
- swyddog banc neu gymdeithas adeiladu
- Swyddog Byddin yr Iachawdwriaeth
- Swyddog Gwarant neu Brif Is-swyddog
- swyddog heddlu
- swyddog llywodraeth leol
- swyddog undeb llafur
- Swyddog yn Swyddfa'r Post
- swyddog yn y gwasanaeth tân
- swyddog yn y lluoedd arfog
- Swyddog yn y Llynges Fasnachol
- syrfëwr
- trefnwr angladdau
- unigolyn gydag anrhydedd, ee OBE neu MBE
- ysgrifennydd cyfreithiol - cymrawd neu aelod cyswllt yn y Sefydliad Ysgrifenyddion a Chynorthwywyr Cyfreithiol

## Pobl nad ydynt yn cael eu derbyn

Rhaid i'ch adlofnodwr beidio â:

- bod yn perthyn i chi trwy waed na phriodas (yn cynnwys teulu yng nghyfraith neu bartneriaid aelodau teulu)
- bod mewn perthynas bersonol gyda chi
- bod yn gweithio i Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi
- bod yn feddyg neu Feddyg Teulu, oni bai ei fod yn datgan ei fod yn nodi ei fod yn eich adnabod yn dda (ee cyfaill agos) a'i fod yn eich adnabod yn rhwydd oddi wrth eich ffotograff

Ceir rhagor o wybodaeth yn www.gov.uk/countersigning-passport-applications

# Dogfennau y bydd angen i chi eu hanfon atom ni

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

**Rhaid i bob cais fod â:**

2 ffotograff diweddar yn union yr un fath (sy'n bodloni'r canllawiau ffotograffau – gweler yr adran cyfarwyddyd ffotograffiaeth)



Eich pasbort Prydeinig olaf neu unrhyw basbortau dilys a roddwyd mewn gwlad arall




**Man cychwyn i'r holl geisiadau CWESTIWN 1**

C1. A yw'r ymgeisydd erioed wedi dal pasbort Prydeinig?

☐ Os do, ewch i'r cwestiynau ychwanegol ar dudalen 15. Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer ceisiadau adnewyddu, cyfnewid, newidiadau ac estyniad (mae hefyd yn berthnasol os oes gan yr ymgeisydd basbort wedi ei ysgrifennu â llaw). Nid yw'r cwestiynau ar dudalen 16 yn berthnasol i chi.

☐ Os na, ewch i'r cwestiynau ychwanegol ar dudalen 16. Mae'r cwestiynau hyn os yw'r ymgeisydd yn ymgeisio am ei basbort/ei phasbort Prydeinig cyntaf. Nid yw'r cwestiynau ar dudalen 15 yn berthnasol i chi.

## OSGOI OEDI

- Anfonwch ddogfennau gwreiddiol neu gyfnewid atom. Oni bai y nodir hynny, nid ydym yn derbyn llungopïau neu ddogfennau sydd wedi eu lamineiddio. Os cawsoch eich geni yn y Deyrnas Unedig, rhaid i'r dogfennau fod wedi eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr neu'r Alban neu Ogledd Iwerddon, neu'r gwasanaeth cofrestru lleol.
- Os oes arnoch angen anfon tystysgrif geni o'r Deyrnas Unedig a'ch bod wedi eich geni ar neu ar ôl 01/01/1983:
  - rhaid iddi fod yn dystysgrif geni lawn. (Hon yw'r un sy'n cynnwys eich manylion chi a'ch rhieni.)
- Os ydych chi'n darparu unrhyw ddogfen mewn iaith nad yw'n Gymraeg neu Saesneg, dylech hefyd ddarparu cyfieithiad swyddogol. Rhaid i'r cyfieithiad gael ei lofnodi a'i stampio gan gyfieithydd sy'n aelod o sefydliad proffesiynol cydnabyddedig i brofi ei ddilysrwydd.
- Ni allwn dderbyn dogfennau wedi eu difrodi. Bydd angen i chi anfon dogfen yn ei lle.

### Tystysgrifau cyfnewid

- I gael copïau o dystysgrifau geni, priodas neu farwolaeth yng Nghymru neu Loegr, ewch i www.gov.uk/bmdcertificates
- I gyfnewid dogfennau a gyhoeddwyd yng Ngogledd Iwerddon, ewch i www.nidirect.gov.uk ac ar gyfer yr Alban ewch i www.gro-scotland.gov.uk
- I gyfnewid dogfennau a gyhoeddwyd dramor, mynnwch gyngor gan lysgenhadaeth neu gonsyliaeth berthnasol y wlad honno.

Gallwn gysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth os na fyddwch yn darparu dogfennau gwreiddiol.

PWYSIG:

Ar ôl i ni ystyried eich cais, efallai y byddwn angen gofyn i chi am ragor o wybodaeth eto.

R RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## Cwestiynau ychwanegol ar gyfer ceisiadau adnewyddu, cyfnewid, newidiadau ac estyniad

Atebwch y cwestiynau hyn os oedd cwestiwn 1 (tudalen 14) yn dweud wrthych am wneud hynny.

| Cwestiynau i'r unigolyn a enwir yn adran 2 y ffurflen | Ticiwch y blwch os yn gadarnhaol | Anfonwch yr holl ddogfennau sy'n berthnasol (os bydd tic yn y blwch) |
|---|---|---|
| C2. A yw'r ymgeisydd erioed wedi dal pasbort Prydeinig?<br>Os 'na', ewch yn ôl i C1 ar dudalen 14. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen yr holl wybodaeth ar dudalen 14 | ☐ | • Pasbort Prydeinig<br>• Pasbort Dinesydd Tiriogaethau Tramor Prydain<br>• Pasbort Dinesydd neu Wladolyn Prydeinig<br>• Pasbort Prydeinig sydd wedi ei ysgrifennu â llaw (byddwch hefyd angen anfon eich tystysgrif geni atom ni a llenwi'r ffurflen ar gyfer pasbort Prydeinig cyntaf)<br>• Pasbort Prydeinig wedi ei ddifrodi (a dywedwch wrthym pam ei fod wedi ei ddifrodi yn adran 8 ar y ffurflen)<br>Os yw eich pasbort wedi ei golli neu ei ddwyn rhowch gymaint o fanylion ag sy'n bosibl am y golled yn adran 3c ar y ffurflen. |
| C3. A yw enw'r ymgeisydd wedi newid ers i'w basbort Prydeinig gael ei roi? | ☐ | • Gwiriwch y 'tabl newid enw' ar dudalen 18 i gael gwybod pa dystiolaeth sydd angen i chi ei hanfon atom. |
| C4. Os yw'r cais ar gyfer plentyn, a oes unrhyw orchmynion cyfrifoldeb rhiant neu orchmynion llys mewn grym?<br>SYLWER: rhaid i'r unigolyn sy'n llofnodi'r datganiad ar y ffurflen fod â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn. | ☐ | • Gorchmynion llys<br>• Gorchmynion cyfrifoldeb rhiant neu dystiolaeth o gytundeb |
| C5. A yw'r ymgeisydd neu'r unigolyn sy'n llofnodi adran 9 yn methu llofnodi'r datganiad? | ☐ | • Llythyr gan yr unigolyn sy'n llofnodi'r ffurflen i esbonio'r rhesymau pam |
| C6. A yw statws cenedlaethol yr ymgeisydd wedi newid ers i'w basbort Prydeinig gael ei roi? e.e. a yw'r ymgeisydd yn ddiweddar wedi dod yn ddinesydd Prydeinig? | ☐ | • Tystysgrif gofrestru neu ddinasyddiad neu dystysgrif geni neu fabwysiadu |
| C7. A yw statws cenedlaethol yr ymgeisydd wedi newid o ddinesydd Tiriogaethau Tramor Prydain i ddinesydd Prydeinig? AC A aned yr ymgeisydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 1983? | Os do i ddau gwestiwn C7 ticiwch y blwch<br>☐ | • Dogfennau'r rhieni neu dystysgrif gofrestru neu ddinasyddiad fel naill ai dinesydd Tiriogaeth Tramor Prydeinig neu ddinesydd Prydeinig<br>• Dogfennau neiniau a theidiau |
| C8. A yw dyddiad geni neu fan geni'r ymgeisydd wedi newid? | ☐ | • Tystysgrif geni yn dangos eich dyddiad geni<br>• Tystysgrif geni yn dangos eich man geni |
| C9. A yw rhywedd yr ymgeisydd wedi newid? | ☐ | • Tystysgrif Cydnabod Rhywedd<br>• tystysgrif geni neu fabwysiadu newydd yn dangos eich rhywedd caffaeledig<br>• llythyr gan eich meddyg neu ymgynghorydd meddygol yn cadarnhau bod eich gweithred i ailbennu'ch rhywedd yn debygol o fod yn barhaol |

F Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## Cwestiynau ychwanegol ar gyfer cais cyntaf am basbort Prydeinig

Atebwch y cwestiynau hyn os oedd cwestiwn 1 (tudalen 14) yn dweud wrthych am wneud hynny.

| Cwestiynau i'r unigolyn a enwir yn adran 2 y ffurflen | Ticiwch y blwch os yn gadarnhaol | Anfonwch yr holl ddogfennau sy'n berthnasol (os bydd tic yn y blwch) |
|---|---|---|
| C2. A yw'r cais hwn am basbort Prydeinig cyntaf yr ymgeisydd?<br>Os 'na', ewch yn ôl i C1 ar dudalen 14. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen yr holl wybodaeth ar dudalen 14. | ☐ | • Geni cyn 01/01/83 – eich tystysgrif geni/mabwysiadu<br>• Geni ar neu ar ôl 01/01/83 – Eich tystysgrif geni 'lawn' neu dystysgrif mabwysiadu sy'n dangos manylion eich rhieni (nid yw'r fersiwn 'fer' a roddir am ddim gan y cofrestrydd yn dderbyniol).<br>• Os ydych wedi cael dinasyddiad neu gofrestru fel dinesydd Prydeinig – eich tystysgrif dinasyddiad neu gofrestriad a'r pasbort y gwnaethoch ei ddefnyddio i ddod i'r Deyrnas Unedig a unrhyw basbort tramor sydd gennych neu yr ydych wedi eich cynnwys arno. Tystysgrif geni/fabwysiadu 'lawn' sy'n dangos manylion y rhieni ar gyfer ymgeiswyr dan 16 oed neu orchymyn llys yn rhoi cyfrifoldeb rhiant (os oes un mewn grym). Fel arfer ni fydd angen i ymgeiswyr 16 oed a hŷn roi eu tystysgrif geni/mabwysiadu i ni. |
| C3. A gafodd yr ymgeisydd ei eni neu ei fabwysiadu yn y Deyrnas Unedig? | ☐ | Tystiolaeth o hawl rhieni'r ymgeisydd i ddinasyddiaeth Brydeinig ar adeg geni'r ymgeisydd<br>Gallai hyn fod yn:<br>• Rhif pasbort Prydeinig y rhieni (a roddwyd yn Adran 4 y ffurflen gais) NEU<br>• Tystysgrif geni lawn y rhiant/rhieni* NEU<br>• Tystysgrif gofrestru neu ddinasyddiad<br>*Os ganed yr ymgeisydd cyn 01/01/83 nid oes angen manylion y rhieni ar y dystysgrif geni. Os byddwch yn hawlio trwy'r tad bydd arnoch hefyd angen tystysgrif briodas â'r fam.<br>NEU<br>Tystiolaeth o statws mewnfudo rhieni'r ymgeisydd yn y Deyrnas Unedig ar adeg geni'r ymgeisydd.<br>Gallai hyn fod yn:<br>• Basbort y rhieni ar adeg geni'r ymgeisydd<br>• Os pasbort y tad, mae angen tystysgrif briodas mam yr ymgeisydd a'r tad.<br>• Rhif Ymgeisio Unigryw os rhoddwyd Hawl Amhenodol i Aros (ILR) i'r rhieni dan Gynllun Preswylio'r UE (gweler adran 8 ar dudalen 9) |
| C4. A gafodd yr ymgeisydd ei eni neu ei fabwysiadu dramor? | ☐ | • Gweler y cwestiynau ychwanegol i ymgeiswyr a aned neu a fabwysiadwyd dramor ar dudalen 17. |
| C5. A yw enw'r ymgeisydd wedi newid ers i'r dystysgrif geni/mabwysiadu neu gofrestru/dinasyddiad gael ei rhoi? | ☐ | • Gwiriwch y 'tabl newid enw' ar dudalen 18 i gael gwybod pa dystiolaeth sydd angen i chi ei hanfon atom. |
| C6. Os yw'r cais ar gyfer plentyn, a oes unrhyw orchmynion cyfrifoldeb rhiant neu orchmynion llys mewn grym? | ☐ | • Gorchmynion llys<br>• Gorchmynion cyfrifoldeb rhiant neu dystiolaeth o gytundeb<br>Sylwer: Rhaid i'r unigolyn sy'n llofnodi adran 9 ar y ffurflen fod â chyfrifoldeb rhiant. |
| C7. A yw'r ymgeisydd neu'r unigolyn sy'n llofnodi adran 9 yn methu llofnodi'r datganiad? | ☐ | • Llythyr gan yr unigolyn sy'n llofnodi'r ffurflen i esbonio'r rhesymau pam. |

F Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## Cwestiynau ychwanegol i ymgeiswyr a aned neu a fabwysiadwyd dramor

Atebwch y cwestiynau hyn os oedd y cwestiynau ar dudalen 16 yn dweud wrthych am wneud hynny. Mae'r adran hon yn cefnogi eich hawl i genedligrwydd Prydeinig, darparwch y canlynol.

Y pasbort y daethoch i mewn i'r Deyrnas Unedig arno a'r dystiolaeth a ddangosir isod – Rhaid i chi anfon hwn atom.

| Cwestiynau i'r unigolyn a enwir yn adran 2 y ffurflen | Ticiwch y blwch os yn gadarnhaol | Anfonwch yr holl ddogfennau sy'n berthnasol (os bydd tic yn y blwch) |
|---|---|---|
| C1. A aned yr ymgeisydd cyn 1 Ionawr 1983? | ☐ | • Eich tystysgrif geni 'lawn' neu dystysgrif mabwysiadu sy'n dangos manylion eich rhieni (nid yw'r fersiwn 'fer' a roddir am ddim gan y cofrestrydd yn dderbyniol).<br>• Tystysgrif geni neu dystysgrif ddinasyddiad neu gofrestru eich tad<br>• Ei dystysgrif priodas â'ch mam |
| C2. A aned yr ymgeisydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 1983? | ☐ | • Eich tystysgrif geni 'lawn' neu dystysgrif mabwysiadu sy'n dangos manylion eich rhieni (nid yw'r fersiwn 'fer' a roddir am ddim gan y cofrestrydd yn dderbyniol).<br>• Tystysgrifau geni neu dystysgrifau dinasyddiad neu gofrestru un o'ch rhieni<br>• Os mai eich tad yw'r rhiant hwn, rhowch ei dystysgrif priodas â'ch mam hefyd. |
| C3. A aned yr ymgeisydd dramor ond ei fabwysiadu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Ionawr 1983? | ☐ | • Tystysgrif fabwysiadu lawn y plentyn<br>• Tystiolaeth o hawl y rhiant mabwysiadol i ddinasyddiaeth Brydeinig trwy ddarparu tystysgrif geni neu fabwysiadu neu dystysgrif dinasyddiad neu gofrestru'r Deyrnas Unedig y rhiant<br>• Os yw'r mabwysiadu yn fabwysiadu ar y cyd, rydym angen tystiolaeth o hawliad y tad mabwysiadol i ddinasyddiaeth Brydeinig. |
| C4. A fabwysiadwyd yr ymgeisydd dramor? AC: nid yw wedi cael tystysgrif dinasyddiad neu gofrestru. | ☐ | • Tystysgrif fabwysiadu sy'n datgan yn glir i'r mabwysiadu ddigwydd dan Gonfensiwn yr Hag dan Erthygl 17 o'r Confensiwn ar Fabwysiadu Trawswladol<br>• Hawl un mabwysiadwr i ddinasyddiaeth Brydeinig trwy ddarparu ei dystysgrif geni neu ddinasyddiad neu gofrestru<br>• Tystiolaeth bod y mabwysiadwr yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig (neu'r ddau fabwysiadwr pan fydd mabwysiadu ar y cyd). Preswylio fel arfer yw eu cartref arferol, y man lle mae ganddynt y cysylltiadau personol cryfaf. |

Ynghylch teidiau a neiniau:

Os ganed rhieni'r ymgeisydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 1983, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hawl eich teidiau a neiniau i ddinasyddiaeth Brydeinig trwy ddarparu eu tystysgrifau geni ac, yn achos teidiau, eu tystysgrifau priodas.

Nid yw hyn yn berthnasol os:

- yw dinasyddiaeth Brydeinig rhieni'r ymgeisydd yn seiliedig ar gofrestriad, dinasyddiad neu eu statws mewnfudo, neu
- yw'r ymgeisydd wedi rhoi rhif pasbort Prydeinig y rhieni yn Adran 4 o'r ffurflen gais.

F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## Cwestiynau ychwanegol os yw enw'r ymgeisydd wedi newid – tabl newid enw

Byddwch naill ai wedi newid eich enw ers eich geni neu wedi newid eich enw ers i'ch Pasbort Prydeinig gael ei roi. Er mwyn cael eich pasbort mewn enw newydd bydd angen i chi anfon dogfennau i ni sy'n dangos y newid enw. Rhaid i'r holl ddogfennau y byddwch yn eu hanfon atom ni ddangos eich enw yn llawn.

| Cwestiynau i'r unigolyn a enwir yn adran 2 y ffurflen | Ticiwch y blwch os yn gadarnhaol | Anfonwch yr holl ddogfennau sy'n berthnasol (os bydd tic yn y blwch) |
|---|---|---|
| C1. A ydych chi wedi newid eich enw trwy briodas neu bartneriaeth sifil? | ☐ | • Tystysgrif priodas, neu<br>• Tystysgrif partneriaeth sifil |
| C2. A ydych chi'n mynd yn ôl i'ch enw cyn priodi neu ddibriod? Neu i enw blaenorol yr oeddech yn ei ddefnyddio o'r blaen? | ☐ | • un ddogfen oddi ar Restr A<br>• datganiad wedi ei lofnodi yn datgan eich bod nawr yn defnyddio eich enw cyn priodi i bob diben<br>• eich tystysgrif geni<br>• eich tystysgrif priodas yn dangos y ddau enw<br>• eich archddyfarniad absoliwt (os yn berthnasol)<br>• tystiolaeth o'r holl enwau blaenorol o Restr B |
| C3. A ydych chi eisiau teithio yn defnyddio eich enw newydd yn fuan ar ôl priodi neu lunio partneriaeth sifil? | ☐ | • Ffurflen PD2 wedi ei llenwi (ffurflen wedi ei hôl-ddyddio)<br>• Gweler www.gov.uk/changing-passport-information am gyngor ac i lawrlwytho ffurflen PD2. |
| C4. A ydych yn newid yr enw ar basbort plentyn? | ☐ | • datganiad wedi ei lofnodi gan bawb â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn dweud eu bod yn rhoi eu caniatâd i'r newid enw, neu<br>• orchymyn llys yn caniatáu'r newid enw<br>a'r ddau isod:<br>• un darn o dystiolaeth o Restr A<br>• o leiaf un darn o dystiolaeth o Restr B |
| C5. A ydych yn newid sillafiad eich enw ychydig? e.e. Bryan i Brian, yn newid y drefn y mae eich enwau cyntaf yn ymddangos yn eich pasbort neu'n gollwng enw cyntaf? | ☐ | Rhaid i chi ddarparu naill ai:<br>• un ddogfen oddi ar Restr A ac un ddogfen oddi ar Restr B, neu<br>• ddwy ddogfen oddi ar restr A |
| C6. A ydych yn newid eich enw ar ôl ail-aseinio eich rhywedd? | ☐ | • Tystysgrif cydnabod rhywedd neu dystysgrif geni wedi ei hail gofrestru<br>Neu fel arall llythyr gan eich meddyg neu ymgynghorydd meddygol ynghyd â:<br>• un ddogfen oddi ar Restr A, ac<br>• o leiaf un ddogfen oddi ar Restr B |
| C7. A ydych yn newid eich enw am unrhyw reswm arall? | ☐ | • un ddogfen oddi ar Restr A, ac<br>• o leiaf un ddogfen oddi ar Restr B |

### Rhestr A – darparwch un ddogfen sy'n cadarnhau yr enw yr ydych yn ei ddefnyddio yn awr

- Cofnod treth e.e. llythyr gan awdurdod treth
- Cerdyn hunaniaeth cenedlaethol neu gyfatebol
- Cofnod cyflogaeth e.e. llythyr swyddogol gan gyflogwr
- Fisa neu hawlen breswyl
- Cofnod addysgol e.e. adroddiad ysgol
- Llythyr a anfonwyd atoch gan adran llywodraeth ganolog, rhanbarthol neu leol
- Trwydded Yrru
- Cerdyn meddygol/iechyd
- Cerdyn pleidleisio
- Datganiad banc
- Tystysgrif Bedydd/Bedydd Esgob

### Rhestr B – darparwch un ddogfen ar gyfer pob newid enw sydd wedi digwydd

- Tystysgrif priodas
- Tystysgrif partneriaeth sifil
- Tystysgrif cydnabod rhywedd
- Gweithred newid enw rhestredig
- Gweithred newid enw heb ei chofrestru a lofnodwyd yn eich hen enw a'ch enw newydd
- Tystysgrif dinasyddiad neu gofrestru
- Datganiad statudol neu affidafid wedi ei lofnodi yn eich enw newydd
- Tystysgrif geni (ar ôl ailgofrestru)
- Tystysgrif gan Lys yr Arglwydd Lyon o'r Alban
- Gorchymyn/tystysgrif mabwysiadu

# Cyfarwyddyd ffotograffau

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## OSGOI OEDI

- Rhaid anfon 2 ffotograff yn union yr un fath wedi eu hargraffu gyda phob cais papur – peidiwch â'u rhoi ynghlwm wrth y ffurflen.
- Rhaid i un ffotograff gael ei ardystio (gweler adran 10 Adlofnod) os ydych yn ymgeisio:
  - am basbort Prydeinig cyntaf (oedolyn neu blentyn)
  - i gyfnewid pasbort sydd wedi ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi (oedolyn neu blentyn)
  - i adnewyddu pasbort plentyn (os yw'r plentyn yn 11 oed neu'n iau)
  - i adnewyddu pasbort (oedolyn neu blentyn 12 i 15 oed) os na ellir eich adnabod o'r ffotograff yn eich pasbort Prydeinig cyfredol, neu
  - i ymestyn pasbort (oedolyn neu blentyn)

Ar gyfer pob cais arall, does dim angen i chi gael ardystio llun oni bai bod eich pryd a gwedd wedi newid yn sylweddol ers eich pasbort Prydeinig diwethaf.

## OSGOI OEDI

Mae ffotograffau pasbort yn rhan allweddol o'ch cais. Os nad yw'r ffotograffau a ddarperir yn addas, bydd oedi cyn i'ch pasbort gael ei roi.

Dilynwch y cyfarwyddiadau yn ofalus er mwyn ei wneud yn iawn y tro cyntaf.

## Arddull y ffotograff

Rhaid i'r ffotograff fod o'r ymgeisydd (a enwir yn adran 2):

- yn wynebu tuag ymlaen ac yn edrych yn syth i'r camera
- fod yn agoslun o'r wyneb, pen ac ysgwyddau gydag uchder pen a argymhellir (y pellter rhwng gwaelod yr ên a'r corun) o rhwng 29 a 34 milimedr
- â mynegiant niwtral a'r geg ar gau (dim gwenu, gwgu na chodi aeliau)
- â llygaid ar agor ac i'w gweld yn glir (dim sbectol haul na sbectol gydag arlliw na gwallt ar draws y llygaid)
- heb unrhyw adlewyrchiad neu lacharedd ar sbectol, a rhaid i'r ffrâm beidio â chuddio'r llygaid (rydym yn argymell, os yn bosibl, i'r sbectol gael ei thynnu ar gyfer y ffotograff)
- yn dangos y pen cyfan, heb unrhyw orchudd pen, oni bai y gwisgir un oherwydd credoau crefyddol neu resymau meddygol
- heb unrhyw wrthrychau na phobl eraill yn y ffotograff (mae hyn hefyd yn berthnasol i lun o faban neu blentyn ifanc, ac ni ddylai babanod fod â thegan neu ddymi yn y llun)
- heb gysgod ar y llun
- heb unrhyw beth yn gorchuddio'r wyneb – ni ddylai unrhyw beth orchuddio amlinell y llygaid, trwyn na cheg, ac
- heb fod â 'llygaid coch'.

## Rhaid i faint y ffotograff:

- fod o faint ffotograff pasbort safonol a dynnwyd mewn bwth lluniau neu stiwdio, 45 milimedr o uchder x 35 milimedr o led, ac ni ddylid ei drimio neu ei dorri i lawr o ffotograff mwy i faint ffotograff pasbort safonol.

## Rhaid i ansawdd y ffotograff:

- fod wedi ei dynnu yn erbyn cefndir hufennog plaen neu lwyd golau plaen
- fod wedi ei argraffu i ansawdd uchel, fel lluniau a argraffwyd gan fwth neu stiwdio (nid yw ffotograffau a argraffwyd gartref yn debygol o fod o safon ddigon da)
- fod yn glir a gyda ffocws siarp
- fod wedi eu tynnu o fewn y mis diwethaf
- fod mewn lliw ar bapur ffotograffig gwyn plaen
- heb eu rhwygo, crychu neu farcio, ac
- heb unrhyw beth wedi ei ysgrifennu ar y tu blaen na'r cefn ac eithrio os oes angen ardystio un ffotograff.

## Plant

Plant 5 oed ac iau:

- nid oes raid iddynt fod yn ddifynegiant
- nid oes raid iddynt edrych yn syth ar y camera.

Rhaid bodloni'r holl safonau eraill o ran y ffotograff.


Babanod dan flwydd oed:

- nid oes raid i'w llygaid fod yn agored.

Os oes angen cynnal pen y plentyn, ni ddylai'r llaw sy'n ei ddal fod yn y golwg. Gallech roi'r plentyn i orwedd ar flanced hufen golau.

Rhaid bodloni'r holl safonau eraill o ran y ffotograff.

Gallwch gael mwy o gyngor ar www.gov.uk/photos-for-passports



Wedi'i gymeradwyo



Peidiwch ag edrych i ffwrdd o'r camera



Dim gorchudd gwallt ffasiynol



Wedi'i gymeradwyo



Dim dymis



1 person yn unig yn y llun




Wedi'i gymeradwyo



Dylech osgoi gorchuddio'r wyneb




Cadwch eich gwallt oddi ar eich wyneb



Wedi'i gymeradwyo



Dim llacharedd ar sbectolau



Peidiwch â gwenu

# Ar ôl i chi lenwi eich cais

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

## Ffi pasbort

Mae'r ffi pasbort yn ddibynnol ar y math o gais yr ydych chi'n ei wneud, sut byddwch chi'n ymgeisio a pha mor fuan ydych chi eisiau eich pasbort. Mae'n adlewyrchu cost derbyn, cofnodi a phrosesu eich cais. Ni allwn ni ad-dalu'r ffi os oedd eich cais yn aflwyddiannus neu os byddwch yn ei dynnu yn ôl. Mae hyn oherwydd y byddwn eisoes wedi cyflawni llawer o waith i'w brosesu.

Am wybodaeth ar ffioedd pasbort:

- Ewch i www.gov.uk/passport-fees
- Ffôn: 0300 222 1999
- Ffôn testun 0300 222 0222
- Text relay: 18001 0300 222 0000

## Sut i dalu

| Sut yr ydych yn ymgeisio | A ellir talu gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd? | A ellir talu gyda siec neu archeb bost? | A ellir talu gydag arian parod? |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Gwirio a Danfon y Swyddfa Bost | Gellir | Archeb bost yn unig | Gellir |
| Post | Ie - llenwch y ffurflen ar dudalen 26. Peidiwch ag anfon cardiau atom. | Gellir – yn daladwy i 'Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi' | Na – peidiwch ag anfon arian parod yn y post. |

Sylwer: Os cawsoch eich geni ar neu cyn 2 Medi 1929 a'ch bod nawr yn ymgeisio am basbort newydd neu gyfnewid pasbort neu i adnewyddu pasbort cyfredol, bydd gennych hawl i basbort 34 tudalen am ddim wrth ddefnyddio gwasanaethau Gwirio a Danfon, post neu ar-lein.

## Talu gyda siec neu archeb bost

Ysgrifennwch rif cod bar eich cais ar gefn y siec neu archeb bost. Gellir gweld y rhif cod bar ar du blaen eich ffurflen gais, ond os byddwch yn ymgeisio trwy Wasanaeth Gwirio a Danfon y Swyddfa Bost bydd y swyddfa bost yn rhoi rhif cais newydd i chi ei ddefnyddio. Os yw'r siec neu archeb bost ar gyfer mwy nag un cais, nodwch rifau cod bar pob cais ar y cefn.

## Perchenogaeth Pasbort

Mae'r pasbort yn parhau yn eiddo i'r Goron bob amser a gellir ei ganslo ar unrhyw adeg.

Os bydd eich taliad yn aflwyddiannus byddwn yn canslo'r pasbort ac ni fyddwch yn gallu teithio gyda'r pasbort na'i ddefnyddio i ddibenion hunaniaeth.

## Cyfweliadau Hunaniaeth

Os ydych chi dros 16 oed, neu'n debygol o gael eich penblwydd yn 16 oed cyn i ni allu rhoi eich pasbort, efallai y bydd angen i chi gael cyfweliad hunaniaeth. Ond gallwn ofyn i unrhyw un ddod i gyfweliad hunaniaeth. Bydd y cyfweliad yn ein helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a bod y cais am basbort yr ydym wedi ei wirio yn perthyn i chi mewn gwirionedd. Mae hyn yn rhan bwysig o'n hymroddiad i helpu i leihau twyll hunaniaeth. Bydd yn ein helpu i nodi ac atal pobl eraill rhag defnyddio eich hunaniaeth a chyflawni twyll yn eich enw chi. Bydd y broses hon yn cynyddu faint o amser a gymer i ni brosesu eich cais.

Dylech ymgeisio am eich pasbort (gweler y ffyrdd i ymgeisio ar dudalen 1). Yna byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych a fydd angen i chi gael cyfweliad hunaniaeth. Bydd ein llythyr yn esbonio sut i wneud apwyntiad, ac yn rhoi gwybodaeth bwysig fel eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl a beth sydd angen i chi ei wneud nesaf.

Os oes gennych chi gyflwr meddyliol neu gorfforol a fyddai'n eich atal rhag cymryd rhan mewn cyfweliad hunaniaeth, rhowch wybod i ni yn adran 8 y ffurflen gais. Dylech hefyd ddarparu llythyr gan eich meddyg neu ymgynghorydd ysbyty yn esbonio eich cyflwr ac os yw'n debygol o fod yn barhaol neu os gellir disgwyl gwellhad.

Os hoffech chi ddysgu mwy am gyfweliadau hunaniaeth gallwch gael gwybodaeth yn www.gov.uk/apply- first-adult-passport

# Gwybodaeth am ddosbarthu

## Sut fydd eich pasbort yn cael ei ddosbarthu

Sut y danfonir eich pasbort. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich pasbort yn cael ei ddanfon gan negesydd (ar ran Swyddfa Basbort EM) rhwng 8am ac 8pm Llun i Gwener a 9am a 6pm ar ddydd Sadwrn. Mewn ardaloedd lle mae risg isel o ddanfoniadau'n mynd ar goll, gall eich pasbort gael ei ddanfon gan Ddanfoniad Arbennig Gwarantedig Y Post Brenhinol.

Gallwch olrhain eich pecyn, neu ddod o hyd i wybodaeth lawn ynghylch danfon yn: www.tnt.com/campaign/en_gb/hmpo.html

## Sut y bydd eich dogfennau i gefnogi cais yn cael eu dosbarthu

Anfonir y dogfennau y byddwch yn eu rhoi i ni ar wahân i'ch pasbort. Gallwch ddewis i'r rhain gael eu dosbarthu trwy ddosbarthiad diogel (am ffi) neu byddant yn cael eu dychwelyd trwy bost ail ddosbarth y Post Brenhinol. Gweler dosbarthiad diogel i'ch dogfennau gael eu dychwelyd ar dudalen 4.

## Llofnodi am eich pasbort

Gan amlaf ni fydd y negesydd angen i chi lofnodi am eich pasbort. Mae negeswyr yn defnyddio technoleg sy'n cofnodi'r cyfeiriad, amser a dyddiad y dosbarthiad, a bydd y negesydd yn tynnu llun o'r eiddo lle dosbarthwyd eich pasbort.

## Cerdyn galw yn cael ei adael gan y negesydd

Ni fydd y negesydd yn postio eich pasbort mewn blwch post allanol. Bydd yn gadael cerdyn i chi drefnu dosbarthiad ar ddyddiad cyfleus. Bydd y cerdyn yn esbonio sut i:

- gael eich pasbort wedi ei ddosbarthu ar amser penodol (mae'r tâl am hyn yn dibynnu ble rydych chi'n byw)
- gael eich pasbort wedi ei ddosbarthu ar unrhyw adeg ar ddiwrnod penodol (ni chodir tâl am hyn)
- gasglu eich pasbort o bwyntiau casglu diogel y cwmni dosbarthu, neu
- gasglu eich pasbort o swyddfa basbort

Os oes angen llofnod ac nad ydych chi gartref pan fydd y negesydd yn ceisio dosbarthu eich pasbort, bydd yn gadael cerdyn i chi drefnu dosbarthiad ar ddyddiad cyfleus.

Os nad yw'r negesydd yn gallu cael mynediad i'ch eiddo i ddosbarthu eich pasbort, ni fydd yn gadael cerdyn a bydd yn anfon hysbysiad o fethiant i ddosbarthu atoch trwy'r post arferol. Nid yw ein cwmni dosbarthu diogel yn cydnabod unrhyw drefniadau ailgyfeirio post posibl gyda'r Post Brenhinol.

## Dosbarthiadau Post Brenhinol

Os yw'ch pasbort yn cael ei ddosbarthu gan y Post Brenhinol, bydd angen i chi lofnodi ar ei gyfer. Os nad ydych chi gartref, byddant yn gadael cerdyn yn esbonio sut i aildrefnu'r dosbarthiad neu ei gasglu o'ch swyddfa ddidoli leol. Dylech wneud hynny'n brydlon, gan y bydd eich pasbort yn cael ei ddychwelyd at Swyddfa Basbort EM wedi 7 niwrnod. Gweler www.gov.uk am ragor o wybodaeth.

## Casglu pasbortau (gwasanaeth Premiwm a Llwybr Cyflym yn unig)

Gallwch drefnu i gasglu eich pasbort o Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yn ystod oriau agor arferol o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Os ydych chi eisiau i rywun gasglu eich pasbort ar eich rhan, hyd yn oed os yw wedi gwneud y cais ar eich rhan, bydd angen i'r unigolyn hwn ddarparu:

- prawf adnabod
- llythyr wedi ei lofnodi gennych chi yn rhoi caniatâd iddo neu iddi gasglu'r pasbort (os yw'r pasbort ar gyfer plentyn, rhaid i'r sawl a lofnododd adran 9 y ffurflen gais hefyd lofnodi'r llythyr yn rhoi caniatâd)

## Llofnodi eich pasbort newydd

- Llofnodwch eich pasbort newydd cyn gynted ag y byddwch yn ei gael. Byddwch yn cael taflen wybodaeth gyda'ch pasbort newydd yn dweud wrthych am lofnodi ar y llinell 'llofnod y deiliad', gan ddefnyddio beiro ddu. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/signing-your-new-passport/signing-your-new-passport


**Mynd i ffwrdd?**

**Gwnewch yn siwr bod eich treth cerbyd yn ddilys cyn i chi fynd.**

**Peidiwch â chymryd y risg – trethwch neu gwnewch HOS nawr yn www.gov.uk/treth-car**




# Cysylltwch â ni

Os bydd arnoch angen cysylltu â ni bydd angen i chi roi rhif y cod bar sydd ar flaen eich ffurflen gais. Os gwnaethoch ddefnyddio Gwasanaeth Gwirio a Danfon neu wneud cais yn un o'n canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid, bydd wch hefyd angen rhoi'r rhif cais sydd wedi ei argraffu ar eich derbynneb.

## Cyngor pasbort

- Ewch i www.gov.uk
- Am gyngor neu i gael fersiwn print bras, Braille neu sain o'r llyfryn hwn, ffoniwch y llinell gyngor pasbortau ar 0300 222 0000. (Codir tâl am alwadau i'r rhif hwn ar y gyfradd arferol y byddwch yn ei thalu am alwadau cenedlaethol.)
- Ffôn testun ar 0300 222 0222 neu Text Relay ar 18001 0300 222 0000 (ar gyfer cwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw).

## Cyngor ffioedd pasbort

- Ffoniwch y llinell ffioedd pasbort ar 0300 222 1999 (gwasanaeth ffôn 24 awr).
- Ffôn testun ar 0300 330 1111 (ar gyfer cwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw).

## Cyngor teithio

Darperir cyngor ar deithio gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Am wybodaeth fanwl, gyfredol:

- ewch i www.gov.uk/foreign-travel-advice

Mae'r cyngor yn cynnwys gwybodaeth ar pryd fydd pasbort yn ddilys, gwybodaeth teithebau a gofynion i gael mynediad i wledydd penodol, a gwybodaeth am iechyd, yswiriant ac arian pan fyddwch chi'n teithio.

# Gwybodaeth arall

## Diogelu eich gwybodaeth bersonol

Mae'ch hunaniaeth a'ch gwybodaeth bersonol yn werthfawr. Rydym yn diogelu eich preifatrwydd a byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Ni chaiff unrhyw un weld eich gwybodaeth bersonol oni bai bod rheswm cyfiawn dros ei gweld. Byddwn yn gwirio'r wybodaeth a roddwch i ni gydag adrannau llywodraeth eraill ac asiantaeth wirio credyd i'n helpu i wirio eich hunaniaeth. Efallai y byddwn hefyd yn pasio'r wybodaeth a roddwch i ni ymlaen i asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu adrannau llywodraeth sy'n ymwneud ag atal twyll i helpu atal neu ganfod lladrad hunaniaeth, twyll neu weithgaredd troseddol arall. Gallwch weld manylion am y wybodaeth bersonol a gedwir gennym, sut fyddwn ni'n ei diogelu, i bwy y byddwn yn ei throsglwyddo a sut allwch chi gael copi o'r wybodaeth honno a hawliau eraill yn ein Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd (PIN) ar ein gwefan. Gall Swyddfa Basbort EM gysylltu â chi i holi am wybodaeth ychwanegol neu i ofyn i chi am ein gwasanaeth yn nes ymlaen. Am ragor o wybodaeth, neu i gael gwybod sut i ddewis peidio â bod yn rhan o hyn ewch i www.gov.uk/government/publications/hmpo-privacy-information-notice

Gallwch gael copi o'r wybodaeth wedi ei hargraffu trwy ysgrifennu atom yn:
Disclosure of Information Section, Her Majesty's Passport Office, Aragon Court, Northminster Road, Peterborough, PE1 1QG

## Safonau gwasanaeth

Mae darparu lefel uchel o wasanaeth i'n holl gwsmeriaid yn bwysig iawn i ni. Weithiau byddwn yn gwneud camgymeriadau, neu bydd amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth yn effeithio ar safon y gwasanaeth. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn ymddiheuro ac yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i unioni pethau. Rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw agwedd o'n gwasanaeth, yn cynnwys sut allwn ni wella yn y dyfodol.

Mae gennym gynllun cydraddoldeb anabledd sy'n sefydlu nodau clir a phenodol ar sut fyddwn ni'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl gydag anableddau. Mae eich barn chi'n bwysig i ni, felly cysylltwch â ni dros y ffôn, trwy lythyr, neu e-bost os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau a fydd yn ein helpu i wella.

Beth allwch chi ei ddisgwyl oddi wrthym ni:

- bydd ein staff yn gwrtais, cymwynasgar a phroffesiynol.
- bydd y manylion yn eich pasbort (yn cynnwys y sglodyn) yn gywir a byddwn yn dychwelyd eich dogfennau i gefnogi cais yn defnyddio'r dull dosbarthu a ddewiswyd gennych chi.
- byddwn yn rhoi esboniad clir a defnyddiol i chi os gwrthodir pasbort Prydeinig i chi oherwydd rhesymau dinasyddiaeth neu resymau eraill.

## Cwynion am basbortau

Cam un

Os oes gennych chi gŵyn ynghylch sut ydym wedi delio â'ch cais am basbort, cysylltwch â'n Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid dros y ffôn, trwy lythyr neu ddefnyddio ein ffurflen ymholiad ar-lein.

Ffôn: 0300 222 0000
Ffôn testun: 0300 222 0222
Text Relay: 18001 0300 222 0000

Ysgrifennwch at:
HM Passport Office
PO Box 767
SOUTHPORT
PR8 9PW

Ar-lein: ewch i www.gov.uk/passport-advice-line a llenwi ein ffurflen ymholiad ar-lein

Pan fyddwch chi'n ysgrifennu atom, nodwch:

- fanylion llawn y broblem
- enw a dyddiad geni'r sawl yr oedd y pasbort ar ei gyfer
- y dyddiad pan anfonwyd y ffurflen gais atom
- at ba un o'n swyddfeydd yr anfonwyd y ffurflen gais
- rhif y cod bar o'r ffurflen gais, os oes gennych chi nodyn ohono
- rhif y pasbort, os oes gennych chi un
- gwybodaeth er mwyn i ni allu cysylltu â chi (enw, cyfeiriad, cod post, rhifau ffôn yn ystod y dydd a gyda'r nos, a chyfeiriad e-bost os oes gennych chi'r rhain), a
- dyddiad ac amser eich apwyntiad a chyfeirnod apwyntiad os yr ymweloch ag un o'n swyddfeydd i gael eich pasbort.

Pan fyddwn yn derbyn eich cwyn, byddwn yn ymchwilio ac yn rhoi gwybod i chi beth aeth o'i le ac yn eich cynghori beth ydym yn ei wneud i unioni pethau. Byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn eich cwyn, naill ai gydag ateb llawn neu i roi gwybod i chi beth sy'n digwydd os nad ydym wedi gorffen ein hymchwiliad.

Cam dau

Os ydych chi wedi dilyn cam un ac nad ydych yn fodlon gyda'n hymateb, gallwch ofyn i ni adolygu eich cwyn.

Cam tri

Os ydych chi wedi dilyn camau un a dau ac yn dal yn anfodlon, gallwch ofyn i'ch Aelod Seneddol (AS) i godi'r mater gyda'n Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Cam pedwar

Os ydych chi'n dal yn anfodlon, gallwch ofyn i'ch AS ofyn am ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (yr Ombwdsmon). Dim ond trwy eich AS allwch chi wneud hyn.

Rôl yr Ombwdsmon yw ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd ynghylch sut mae adrannau'r llywodraeth, a'u hasiantaethau gweithredol, wedi eu trin.

## Iawndal

Rydyn ni'n sylweddoli y gall ein camgymeriadau arwain at gostau neu golledion ariannol i chi weithiau. Yn yr achosion hyn, dylech ddilyn y cyfarwyddiadau yng ngham un ac ysgrifennu llythyr atom. Gyda'r llythyr dylech anfon unrhyw ddogfennau sy'n profi eich hawliad (er enghraifft, derbynneb i ddangos i chi ganslo tocyn awyren).

Fel arfer fyddwn ni ddim ond yn cynnig iawndal am golled ariannol o ganlyniad i oedi yn ein gwasanaethau gwarantedig (Llwybr Cyflym a Phremiwm).

POST OFFICE

# Angen adnewyddu eich pasbort?

Adnewyddu pasbort cyflymach, dim ffurflenni, dim ffws, gyda'n gwasanaeth Gwirio a Danfon Digidol

Chwiliwch am eich cangen agosaf yn postoffice.co.uk/identity/renew-adult-passport



# Cyfarwyddiadau ar gyfer talu gyda cherdyn credyd neu ddebyd

Os ydych chi'n ymgeisio trwy'r post ac eisiau talu am eich pasbort gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd, llenwch y cyfarwyddyd isod a'i gynnwys gyda'ch cais. Os na fyddwch yn ysgrifennu'r ffi gywir yn y cyfarwyddyd, byddwn yn dal i godi'r ffi gywir am y gwasanaeth y gofynnoch amdano. Bydd eich cais yn cael ei oedi os yw eich cerdyn credyd neu ddebyd wedi darfod neu os nad ydych chi'n rhoi dyddiad dod i ben eich cerdyn, neu'r rhif diogelwch (y tri rhif olaf ar stribed llofnod eich cerdyn).

Os ydych chi'n trefnu apwyntiad ar gyfer ein gwasanaeth llwybr cyflym neu bremiwm, peidiwch â llenwi'r ffurflen hon.

## Pwysig

Lle mae'n dweud Cod Bar isod, nodwch y rhif sydd wedi ei argraffu dan y cod bar ar dudalen 1 y ffurflen gais. Os ydych chi'n talu am fwy nag un cais, dylech lenwi un cyfarwyddyd yn unig, ac ysgrifennu'r cod bar.

Cod Bar

Enw'r ymgeisydd:

Rydym yn derbyn pob prif gerdyn credyd a cherdyn debyd ac eithrio American Express.
Gyda pha gerdyn ydych chi'n talu?

☐ Mastercard ☐ Visa ☐ Visa Electron

Rhif y cerdyn

Rhif diogelwch (y tri rhif olaf ar stribyn llofnod eich cerdyn)

Dyddiad dod i ben: M M B B

Dilys o: M M B B

Llofnod deiliad y cerdyn:

Y ffi yr ydych yn ei thalu:
(Os ydych chi'n talu am fwy nag un cais, rhowch y cyfanswm) £

Enw deiliad y cerdyn:

Cyfeiriad a chod post deiliad y cerdyn:

Rhif ffôn deiliad y cerdyn:

# Rhestr wirio cyn i chi anfon eich cais atom

R F RP C E Defnyddiwch y logos i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflymach. Gweler tudalen 2-4

Gwnewch nodyn o'ch rhif cais ar dudalen flaen y llyfryn cyfarwyddyd hwn. Gellir gweld hwn ar du blaen eich ffurflen gais dan y cod bar. Os ydych chi'n defnyddio gwasanaeth Gwirio a Danfon Swyddfa'r Post neu'n gwneud cais yn bersonol mewn swyddfa basbort, gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud nodyn o rif y cais a argraffwyd ar eich derbynneb. Bydd arnoch angen y rhif hwn petai arnoch angen cysylltu â ni.

| Rhaid i chi anfon atom ni | Defnyddiwch y blwch ticio i gadarnhau |
|---|---|
| Ffurflen gais wedi ei llenwi'n gywir<br><br>Dylid llenwi pob adran fel y disgrifir yn 'Pa fath o basbort ydych chi'n ymgeisio amdano a pha adrannau i'w llenwi'. Gweler tudalennau 2-4.<br><br>Bod y ffurflen wedi ei llofnodi a'i dyddio yn adran 9, a 6 os yw'r ymgeisydd yn 12-15 oed.<br><br>Os yw'r cais ar gyfer plentyn, rhaid i'r oedolyn sydd wedi llofnodi'r datganiad fod â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.<br><br>Os oes angen adlofnodwr ei fod wedi llenwi adran 10 yn llawn ac wedi ardystio, llofnodi a dyddio un ffotograff yn gywir. Gweler yr adran adlofnodwr ar dudalennau 12-13. | ☐ |
| 2 ffotograff unfath<br><br>(sy'n bodloni canllawiau ffotograffau, gweler tudalen 19-20) | ☐ |
| Y dogfennau cywir<br><br>Defnyddiwch y rhestr wirio i weld pa ddogfennau sydd angen i chi eu hanfon atom ni. Dechreuwch yng nghwestiwn 1 sydd ar dudalen 14. | ☐ |
| Y ffi gywir<br><br>Os ydych chi wedi rhoi croes yn y blwch i ni ddychwelyd eich dogfennau i gefnogi'r cais trwy ddosbarthiad diogel, cofiwch gynnwys hyn yng nghyfanswm y ffi. Gweler 'Ffioedd pasbort' ar dudalen 21.<br>Peidiwch ag anfon cardiau credyd neu ddebyd gyda'ch cais. Os byddwn yn derbyn cerdyn banc, byddwn yn ei ddistrywio'n ddiogel. Yn hytrach, defnyddiwch y ffurflen ar dudalen 26 i roi manylion eich taliad i ni.<br>Bydd eich pasbort yn cael ei ddanfon ar wahân. Gweler danfon eich pasbort ar dudalen 22. | ☐ |

ILBW 53 (01.06.21)

# Nodiadau

# Nodiadau